

Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24

Chwefror 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24

Chwefror 2023



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



Peter Fox AS
Ceidwadwyr Cymreig



Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Rhianon Passmore AS
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Russell George AS
Ceidwadwyr Cymreig

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	2
Casgliadau ac Argymhellion	4
1. Cyflwyniad	9
2. Trosolwg a Rhagolygon Economaidd	16
3. Ysgogiadau Cyllidol	26
4. Gosodiad y Gyllideb	41
5. Costau byw: mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau ...	55
6. Diogelu gwasanaethau cyhoeddus.....	65
Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.	81
Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	83

Rhagair y Cadeirydd

Mae'n anodd dadlau yn erbyn honiad Llywodraeth Cymru mai dyma un o'r cyllidebau caletaf y mae wedi'i llunio erioed. Mae chwyddiant uchel, costau ynni cynyddol, ac argyfwng costau byw yn rhoi pwysau digynsail ar gyllidebau sydd eisoes dan bwysau. Heb os, mae hwn yn gyfnod anodd.

Fodd bynnag, nid yw'r sefyllfa heriol hon yn golygu nad yw'r Gweinidog yn dal i fod yn atebol, ac nid yw ychwaith yn golygu na ellir gwella'r cynigion yn y Gyllideb Ddrafft hon. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw Llywodraeth Cymru yn llwyddo i weithredu yn unol â'i rhethreg, a lle y gellir gwneud gwelliannau pendant.

Fel Pwyllgor, mae ein hymdrechion wedi canolbwyntio ar dri phrif faes: diffyg eglurder a gonestrwydd ynghylch y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru; yr angen i wella cymorth costau byw i'r rhai sydd ei angen fwyaf; a'r camau ychwanegol sydd eu hangen i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus.

Yn gyntaf, roeddem yn ei chael yn arbennig o anodd nodi effaith penderfyniadau gwariant, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle mae cyllid wedi'i ohirio, ei leihau neu ei atal yn gyfan gwbl.

Mae'r diffyg eglurder a gonestrwydd hwn yn destun pryder: er mwyn i'r Senedd ddeall yn llawn y dewisiadau a wnaed yn y Gyllideb Ddrafft hon, mae angen i'r Gweinidog fod yn dryloyw a pheidio â chuddio y tu ôl i naratif sy'n addo mwy o'r un peth heb nodi'n union ble y bydd y fwyell yn disgyn o ran gwariant.

O ran cymorth i ymdrin â chostau byw cynyddol, does dim dwywaith nad rhywbeth o'r pwys mwyaf yw cynorthwyo'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Er ein bod yn canmol Llywodraeth Cymru am flaenoriaethu'r maes hwn yn ei Chyllideb Ddrafft, clywsom dystiolaeth y gellid gwella'r cymorth a gynigir mewn nifer o ffyrdd i'w gwneud yn haws ac yn symlach rhoi cymorth i'r rhai sydd ei angen.

Dyna pam mae'r adroddiad hwn yn gwneud argymhellion cadarn i wella pecyn presennol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys: mynd ati'n gyflym i ddatblygu system fudd-daliadau unedig – Siarter Fudd-daliadau Cymru; ehangu'r model gofal plant am ddim; cynyddu gwerth y lwfans cynhaliaeth addysg, a rhoi blaenoriaeth i ddisodli'r rhaglen Cartrefi Cynnes.

O ran gwasanaethau cyhoeddus, rydym yn croesawu'n fawr y cyllid ychwanegol a ddarperir drwy'r Gyllideb Ddrafft i liniaru pwysau, yn enwedig yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a llywodraeth leol. Fodd bynnag, mae angen llawer mwy: rhagor o wybodaeth am sut y bydd yr arian hwn yn lleddfu pryderon allweddol, megis recriwtio a chadw; ac eglurder pellach ar ba feysydd fydd ar eu colled.

Credwn fod angen ffocws a sylw penodol ar weithlu'r sector cyhoeddus; dyma asgwrn cefn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ond mae'n amlwg bod staff mwn sefyllfa anodd, heb ddigon o adnoddau, ac o dan ormod o bwysau. Dyna pam rydym wedi galw am ddatblygu cynllun gweithlu gwasanaethau cyhoeddus i roi sefydlogrwydd, cefnogaeth, a chyfeiriad hirdymor. Ni allwn ddisgwyl i'n gwasanaethau wella os nad ydym yn gofalu am y rhai sy'n gweithio mor galed i'w cynnal.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i siarad â ni a gobeithio bod ein barn a'n hargymhellion yn adlewyrchu'r hyn a glywsom. Mae ein gwaith ymgysylltu, a ddechreuodd fis Mehefin diwethaf, yn hanfodol i lywio ein gwaith craffu a'n nod yw adeiladu ar y gwaith hwn ar gyfer y flwyddyn nesaf wrth inni edrych ymlaen at gylch cyllideb 2024-25.



Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Casgliadau ac Argymhellion

Casgliad 1. Rydym yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i ystyried ffyrdd y gellir gwella dogfennaeth y gyllideb. Er ein bod wedi adlewyrchu ein barn uchod, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd ar eu profiadau o graffu ar ddogfennaeth y gyllideb eleni a ffyrdd y gellir gwneud gwelliannau.

.....Tudalen 54

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell, pan fydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am ohirio cyhoeddi cyllideb Llywodraeth Cymru ac yn cynnig cyfnod cryno o waith craffu, y dylai'r Gweinidog fynd i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid i drafod blaenoriaethau'r gyllideb a'r cyd-destun economaidd y caiff y gyllideb ei llunio ynddo.Tudalen 15

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu asesiad llawn o'r effaith a gaiff chwyddiant ar ei sefyllfa gyllido ar gyfer 2023-24 a'r newidiadau i'r canlyniadau y disgwylir eu cyflawni o fewn y cyfnod hwnnw.

.....Tudalen 25

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU, drwy'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid a sianeli eraill, i sefydlu dulliau rhynglywodraethol cadarn sy'n ymwneud â materion cyllidol i sicrhau y gall uwchgyfeirio anghytundebau yn effeithiol a datrys anghydfodau ariannu.Tudalen 25

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am ddulliau annibynnol i ddatrys anghydfodau cyllid rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a rhoi diweddariad ar y defnydd ohonynt.

.....Tudalen 25

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith manwl i fodelu effaith amrywio cyfraddau treth incwm Cymru ym mhob band ar ymddygiad a hynny er mwyn sicrhau bod y broses benderfynu ynghylch pennu cyfraddau treth yn cael ei hategu gan dystiolaeth gadarn.Tudalen 39

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith sylfaenol i'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â datganoli pwerau i addasu cyfraddau bandiau a throthwyon treth incwm Cymru a'i bod yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd hwnnw cyn dadl flynyddol y Pwyllgor ar flaenoriaethau cyllidebol yn y Cyfarfod Llawn ym mis Gorffennaf.Tudalen 39

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad o'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â datganoli pwerau i weinyddu budd-daliadau yng Nghymru ac yn rhoi diweddariadau cyfnodol ar gynnydd i'r Pwyllgor.....Tudalen 39

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfrifiadau manwl yn ymwneud â'r addasiad i'r grant bloc ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft, naill ai fel rhan o naratif y gyllideb neu trwy eu cynnwys yng nghyhoeddiad Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, sef Rhagolwg Trethi Cymreig, i ddangos sut y mae pob treth ddatganoledig yn effeithio ar y grant bloc a sefyllfa ariannu gyffredinol Llywodraeth Cymru..... Tudalen 40

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn rhoi rhagor o fanylion, mewn ymateb i'r adroddiad hwn ac ochr yn ochr â chyllidebau atodol, ar sut y bydd cyllidebau cyfyngedig a phwysau chwyddiant yn effeithio ar ei rhaglen gyfalaf, gan gynnwys:

- pa brosiectau fydd yn cael eu blaenoriaethu dros y flwyddyn ariannol sydd i ddod a pha rai fydd ar eu colled; a
- beth fydd effaith pwysau o'r fath ar gyflawni blaenoriaethau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Tudalen 40

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol cyn i'r Gyllideb Derfynol gael ei gosod ac yn egluro pam nad oedd modd cynnwys y dyraniadau hyn yn y Gyllideb Ddrafft am yr ail flwyddyn yn olynol..... Tudalen 40

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn galw ar Lywodraeth y DU i gynyddu'r terfynau cyffredinol a'r terfynau blyneddol o ran benthyca a chronfeydd wrth gefn, yn unol â chwyddiant o leiaf, ac y dylid adolygu'r terfynau hyn yn rheolaidd er mwyn peidio â lleihau eu gwerth mewn termau real dros amser..... Tudalen 40

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro lefelau cronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn deg, yn cael eu defnyddio'n briodol ac ar lefelau digonol i ymdrin â'r pwysau a wynebir.
..... Tudalen 40

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud newidiadau i'r ffordd y mae'n cyflwyno gwybodaeth mewn dogfennaeth a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft fel ei bod yn darparu:

- asesiad o effaith penderfyniadau gwariant ar draws portffolios, gan gynnwys effaith ymarferion ailflaenoriaethu ac eglurder ar effaith penderfyniadau mewn portffolios mewn termau real;
- asesiad o sut y mae penderfyniadau gwario Llywodraeth Cymru yn cefnogi mesurau ataliol (neu nad ydynt yn gwneud hynny).

..... Tudalen 54

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod lefel y wybodaeth a ddarperir yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 yn gyfwerth â'r wybodaeth a roddir yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23. Tudalen 54

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei chynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhyw i lywio a datblygu arfarniad polisi rhyw cynhwysfawr o holl benderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru. Tudalen 54

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion am flaenraglen waith y Grŵp Cyngori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, gan gynnwys yr allbynnau diriaethol y bydd ei waith yn eu cyflawni ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024-25. Tudalen 54

Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu symleiddio cynlluniau cymorth ariannol, o dan Siarter Fudd-daliadau Cymru arfaethedig, ac yn defnyddio dull carlam i ddatblygu proses ymgeisio unedig ar gyfer grantiau datganoledig a chynlluniau cymorth ariannol. Tudalen 64

Argymhelliad 18. Yng ngoleuni'r cynnydd mewn costau byw, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r cynlluniau cymorth ariannol presennol i sicrhau bod y trothwyon cymhwysra yn addas i'r diben ac nad ydynt yn eithrio pobl agored i niwed sydd ar ymylon cynlluniau cymorth. Tudalen 64

Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau brys i fynd i'r afael â'r effaith anghyfartal ar rywedd yn sgil costau byw cynyddol, ac yn enwedig, yn cynnal adolygiad o'r model gofal plant am ddim presennol i asesu ei effeithlonrwydd ac yn annog ei ehangu ymhellach. Tudalen 64

Argymhelliad 20. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru:

- yn adolygu trothwy cymhwysedd y Lwfans Cynhaliaeth Addysg; ac

- yn ystyried cynyddu gwerth y Lwfans Cynhaliaeth Addysg.64

Argymhelliad 21. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu datblygu rhaglen Cartrefi Clyd newydd i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi ac i atal pobl sy'n agored i niwed rhag disgyn i dlodi tanwydd.....Tudalen 64

Argymhelliad 22. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn esbonio sut y mae'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu yn y Gyllideb Ddrafft yn cyd-fynd â'r chwe blaenoriaeth ar gyfer GIG Cymru a nodwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a pha feysydd y bydd yn eu dadflaenoriaethu fel rhan o'r broses hon.Tudalen 79

Argymhelliad 23. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y canlyniadau y mae'n disgwyl i sefydliadau'r GIG a darparwyr gofal cymdeithasol eu cyflawni gyda'r cyllid ychwanegol y mae wedi'i ddyrannu ar gyfer 2023-24.Tudalen 79

Argymhelliad 24. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad o'r cyllid y mae wedi'i ddyrannu i wella effeithlonrwydd yn y GIG gyda'r bwriad o leihau pwysau yn y tymor hir.Tudalen 79

Argymhelliad 25. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth i ddangos sut y mae'r dyraniadau ar gyfer 2023-24:

- yn lleddfu pwysau staffio ar unwaith ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a llywodraeth leol;
- yn sicrhau gwelliannau i'r materion recriwtio a chadw a wynebir yn y meysydd hynny. Tudalen 80

Argymhelliad 26. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi:

- diweddariad ar y defnydd o staff asiantaeth a locwm gan y GIG, gan gynnwys gwybodaeth am y mesurau y bydd yn eu mabwysiadu er mwyn lleihau'r ddibyniaeth arnynt ac effaith ddisgwyliedig y camau gweithredu ar wariant; a
- manylion y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â Lwfans blynyddol y dreth pensiwn o gofio ei effaith sylweddol ar weithlu'r GIG. Tudalen 80

Argymhelliad 27. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn rhoi diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar gyflwyno ardoll gofal cymdeithasol i gyllido cost gynyddol y ddarpariaeth gofal cymdeithasol ac i leddfu'r pwysau ar y gweithlu.....Tudalen 80

Argymhelliad 28. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus i lunio cynllun cynhwysfawr, tymor hir ar gyfer y gweithlu gwasanaethau cyhoeddus ac yn rhoi diweddariad ar ei ddatblygu.Tudalen 80

1. Cyflwyniad

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru

1. Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn nodi cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ac, fel arfer, y dyraniadau arfaethedig ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

2. Mae cyfanswm Cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynnwys y canlynol:

- Cyllid gan Lywodraeth y DU a elwir y Grant Bloc;
- Cynlluniau benthyca;
- Cyfraddau Treth Incwm Cymru;
- Ardrethi annomestig;
- Trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn (y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi).

3. Mae'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) yn gyfrifol am ystyried y Gyllideb Ddrafft o safbwynt strategol, cyffredinol, yn unol â Rheol Sefydlog 19. Mae pwyllgorau polisi unigol yn cynnal eu sesiynau eu hunain i ganolbwyntio ar dystiolaeth er mwyn edrych yn fanwl ar yr agweddau ar y Gyllideb Ddrafft sydd o fewn eu cylchoedd gwaith hwy a llunio adroddiad arnynt.


Protocol Proses y Gyllideb

4. Cytunodd y Senedd ar y protocol presennol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd ar gyfer Proses y Gyllideb ar 21 Mehefin 2017.¹ Mae protocol y gyllideb yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth mewn dau gam mewn perthynas â'r Gyllideb Ddrafft:

- Cynigion amlinellol sy'n dangos cynlluniau gwariant a chyllido strategol lefel uchel Llywodraeth Cymru; a'r
- Gyllideb Ddrafft fanwl, lle bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cynigion cyllideb ar gyfer pob portffolio ar lefel Llinellau Gwariant yn y Gyllideb neu lefel gyfatebol, ynghyd â naratif ategol priodol.

¹ Senedd. Protocol Proses y Gyllideb, 21 Mehefin 2017

5. Fodd bynnag, dros y pedair blynedd diwethaf (gan gynnwys eleni), mae ansicrwydd ynghylch sefyllfa ariannu Llywodraeth Cymru wedi arwain at oedi o ran cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft gyda'r cynigion amlinellol a manwl yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd. Fel y mae'r ffeithlun a ganlyn yn ei ddangos, roedd hyn wedi arwain at broses graffu gyfyngedig yn y cylch cyllideb blyneddol:



Allwedd:

PAPAC = Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

6. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ('y Gweinidog') ar 9 Rhagfyr 2022 yn cynnig newidiadau i'r protocol, sydd â'r nodau a ganlyn:

- Ffurfioli gwaith ymgysylltu a chraffu'r Pwyllgor cyn y gyllideb; a

- Rhoi mwy o sicrwydd mewn perthynas ag amseriad y Gyllideb Ddrafft.²

7. Ymatebodd y Gweinidog ar 17 Ionawr 2023 gan gydnabod nad oedd amserlen y gyllideb ar gyfer 2023-24 wedi rhoi i'r Pwyllgor y "sicrwydd sydd ei angen arnoch er mwyn craffu ar y Gyllideb Ddrafft" a'i bod yn werth ystyried sut i addasu'n well i amgylchiadau lle mae "amhendantwydd gan Lywodraeth y DU ynghylch pryd y cynhelir digwyddiadau cyllidol".³ Cytunodd y Gweinidog hefyd i drafod y materion hyn yn fanylach gyda'r Cadeirydd "i edrych ar feysydd lle y gall fod tir cyffredin rhyngom o ran y newidiadau y mae angen eu gwneud".⁴

Amserlen

8. Ar 1 Gorffennaf 2022, ysgrifennodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, at y Pwyllgor Busnes yn nodi amserlen ar gyfer cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 ('y Gyllideb Ddrafft'), yn unol â'r amserlenni a bennwyd o dan Reol Sefydlog 20. Roedd y llythyr yn nodi'r amserlen 'senario waethaf' "sy'n gwbl ddibynol ar gyhoeddiadau Llywodraeth y DU". Cynigiodd y byddai'r cynigion drafft amlinellol a manwl:

- yn cael eu cyhoeddi gyda'i gilydd erbyn 13 Rhagfyr 2022; ac
- yn cael eu trafod ar 7 Chwefror 2023 (gyda'r Gyllideb Flynyddol yn cael ei chyhoeddi ar 23 Chwefror 2023 ac yn cael ei thrafod ar 7 Mawrth 2023).⁵

9. Cadarnhawyd yr amserlen hon gan y Gweinidog ar 4 Gorffennaf 2022.⁶

10. Roedd Llywodraeth y DU wedi bwriadu cyhoeddi cynllun cyllidol tymor canolig ar 23 Tachwedd. Dygwyd y dyddiad ymlaen i 31 Hydref, yn bennaf i dawelu'r marchnadoedd ariannol yn dilyn "mini-gyllideb" Canghellor y Trysorlys ar y pryd ar 23 Medi. Ar ôl i Rishi Sunak AS ddod yn Brif Weinidog, symudwyd hyn i 17 Tachwedd, lle roedd yn rhan o Ddatganiad yr Hydref, a chyhoeddwyd rhagolygon swyddogol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i gyd-fynd â'r cynllun.⁷ Yn dilyn hynny, cadarnhaodd y Gweinidog na fyddai unrhyw effaith ar amserlen y Senedd.⁸

² Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 9 Rhagfyr 2022

³ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 17 Ionawr 2023

⁴ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 17 Ionawr 2023

⁵ Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at y Pwyllgor Cyllid, 1 Gorffennaf 2022

⁶ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 4 Gorffennaf 2022

⁷ Llywodraeth y DU, Datganiad yr Hydref 2022, 17 Tachwedd, 2022

⁸ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 24 Hydref 2022

Ymgysylltu â'r Cyhoedd

11. Roedd sesiynau ymgysylltu cyhoeddus y Pwyllgor ar gyfer y Gyllideb Ddrafft yn cynnwys y canlynol:

- digwyddiad allanol i randdeiliaid yn Sefydliad Glowyr Llanhilledd, Abertyleri, ar 15 Mehefin 2022;
- gweithdy ar-lein gydag aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru ar 23 Mehefin 2022; a
- grwpiau ffocws gyda sefydliadau ac unigolion a hwyluswyd gan dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd ac a gynhaliwyd drwy gydol mis Mehefin 2022.

12. Cafodd y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y sesiynau hyn eu crynhoi mewn Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu⁹ a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ac Adroddiad Canfyddiadau Ymgysylltu¹⁰ a luniwyd gan Dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd.

Dadl ar Flaenoriaethau'r Gyllideb

13. Cynhaliwyd dadl flynyddol y Pwyllgor ar flaenoriaethau'r gyllideb ddydd Mercher 13 Gorffennaf 2022 a chafodd ei llywio gan waith ymgysylltu'r Pwyllgor, fel y nodir uchod.¹¹ Roedd y ddadl yn gyfle ffurfiol i Aelodau, ac yn enwedig Cadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd, ddylanwadu ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru cyn llunio'r Gyllideb Ddrafft yn yr hydref.

14. Yn ystod y ddadl, amlinellodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid chwe maes blaenoriaeth a nodwyd o'r sesiynau ymgysylltu:

- Darparu cymorth i'r rhai sydd ei angen fwyaf cyn gynted â phosibl;
- Cynllunio'r gweithlu'n well;
- Buddsoddi mewn seilwaith ieuenctid;
- Cynyddu cyllid cyfalaf;
- Gwell defnydd o ddata i ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithiol a chydgyssylltiedig;

⁹ Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu - y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24

¹⁰ Senedd Cymru, Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24: Canfyddiadau gwaith ymgysylltu

¹¹ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 13 Gorffennaf 2022

- Cyllid gwyrdd sefydlog.¹²

Gwaith Craffu ac Ymgynghori Cyn y Gyllideb

15. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn cyn y gyllideb gyda'r Gweinidog ar 29 Medi.¹³ Cynhaliwyd sesiynau technegol preifat hefyd yn ystod yr un cyfarfod â Phrif Economegydd Llywodraeth Cymru; swyddogion sy'n gyfrifol am Gynllun Gwella'r Gyllideb Llywodraeth Cymru; a chynrychiolwyr o swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, New Economics Foundation, Chwarae Teg a Grŵp Cyllideb Menywod Cymru.¹⁴ Diben y sesiynau hyn oedd cael syniad o'r cyd-destun economaidd a chyllidol sy'n llywio proses Llywodraeth Cymru ar gyfer llunio cyllideb.

16. Cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyn y gyllideb rhwng 23 Medi a 18 Tachwedd 2022¹⁵ ar ran holl Bwyllgorau'r Senedd. Daeth cyfanswm o 29 o ymatebion i law. Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y meysydd a ganlyn:

- Effaith Cyllideb 2022-23 Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid sy'n gysylltiedig ag adfer o'r pandemig;
- Sut y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi'r economi a busnes yn dilyn y pandemig, Brexit a chwyddiant a phwysau economaidd eraill?
- Pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i helpu aelwydydd i ymdopi â chwyddiant a'r argyfwng costau byw;
- A yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddatblygu economi wyrddach yn glir ac yn ddigon uchelgeisiol, ac a oes digon o fuddsoddiad yn cael ei dargedu at fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng natur; ac
- A yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r mecanweithiau ariannol sydd ar gael iddi o ran benthyca a threthiant.

Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2023-24

17. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y penderfyniadau cyffredinol strategol a'r blaenoriaethau sydd wrth wraidd y dyraniad yng nghynigion y Gyllideb Ddrafft, ynghyd â'r cynlluniau trethiant a benthyca. Bu'n gwneud hynny ar sail y cefndir o gyllid cyhoeddus a'r economi'n gyffredinol. Defnyddiodd y Pwyllgor hefyd ddull

¹² Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 13 Gorffennaf 2022, paragraffau 307 i 312

¹³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2022

¹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 29 Medi 2022

¹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24: Ymgynghoriad

strategol o graffu ar y Gyllideb Ddrafft a oedd yn canolbwyntio ar bedair egwyddor craffu ariannol:

- Fforddiadwyedd – A yw'r darlun llawn o ran cyfanswm refeniw a gwariant yn gytbwys?
- Blaenoriaethu – A yw'r dyraniadau wedi eu rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd resymol y gellir ei chyfiawnhau?
- Gwerth am arian – A yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda - yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol?
- Proses y gyllideb – A yw'n effeithiol ac yn hygyrch? A oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol?

18. Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, ysgrifennodd y Cadeirydd at Bwyllgorau'r Senedd ar 12 Rhagfyr 2022¹⁶ gan nodi bod gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft yn debygol o ganolbwyntio ar yr argyfwng costau byw, costau ynni cynyddol a chwyddiant uchel.

Barn y Pwyllgor

19. Mae'r Pwyllgor yn nodi, oherwydd amseriad Datganiad yr Hydref 2022 Llywodraeth y DU, bod yr amser a oedd ar gael ar gyfer craffu gan y Senedd wedi'i gwtogi am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Mae'r Pwyllgor yn derbyn nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth dros amseriad digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU ac mae'n cydnabod bod cryn ansicrwydd ynghylch ei sefyllfa ariannu wrth baratoi cynlluniau ariannu ar gyfer 2023-24 o ystyried yr ansefydlogrwydd yn arweinyddiaeth a pholisïau Llywodraeth y DU yn yr haf a dechrau'r hydref yn 2022.

20. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu, oherwydd bod amserlen fyrrach dros gyfnod y Nadolig ar gyfer y gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft, bod rhanddeiliaid a thystion yn wynebu heriau o ran eu gallu i ddadansoddi ac ymateb yn ddigonol i feysydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Mae hyn yn anffodus gan ei fod yn cael effaith sylweddol ar y gwaith craffu ar y gyllideb. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod Llywodraeth Cymru wedi gallu cyhoeddi ei

¹⁶ Llythyr o'r Cadeirydd at Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd, 12 Rhagfyr 2022

Chyllideb Ddrafft a'r dogfennau cysylltiedig lai na phedair wythnos ar ôl i Ddatganiad yr Hydref Llywodraeth y DU gael ei gyhoeddi.

21. Roedd y Pwyllgor hefyd yn falch bod y Gweinidog a swyddogion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Prif Economegydd Llywodraeth Cymru, wedi bod yn bresennol yn y Pwyllgor ddiwedd mis Medi i drafod materion a themâu a gododd o weithgareddau ymgysylltu haf y Pwyllgor a'r cyd-destun economaidd presennol. Er na all hyn gymryd lle gwaith craffu ar gynigion cadarn yn y Gyllideb Ddrafft ac ystyriaeth o sut mae dyraniadau strategol yn effeithio ar randdeiliaid allweddol, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid parhau â'r dull hwn mewn blynyddoedd pan fydd yr amserlen yn fyrrach oherwydd yr ansicrwydd cyllid sylweddol a achosir gan ddigwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU. Mae hyn yn rhywbeth rydym wedi'i godi'n flaenorol gyda'r Gweinidog,¹⁷ a hoffai ei weld yn dod yn nodwedd allweddol o waith craffu cyn y gyllideb ar gyfer cylchoedd cyllideb yn y dyfodol pan fydd yr amserlen wedi'i chwtogi.

22. Mae'r Pwyllgor yn diolch i'r Gweinidog am ei chydweithrediad parhaus o ran gwneud newidiadau i Brotocol Proses y Gyllideb. Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei farn bod y protocol wedi'i sefydlu ar adeg pan fyddai digwyddiadau cyllidol sylweddol yn digwydd yn y gwanwyn yn hytrach nag yn yr hydref, a bod newid yn y drefn hon ers 2017 wedi cyfyngu ar allu'r Senedd i graffu'n briodol ar y Gyllideb Ddrafft. Edrychwn ymlaen at barhau i ohebu â'r Gweinidog ar y mater hwn cyn cylch cyllideb 2024-25.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, pan fydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am ohirio cyhoeddi cyllideb Llywodraeth Cymru ac yn cynnig cyfnod cryno o waith craffu, y dylai'r Gweinidog fynd i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid i drafod blaenoriaethau'r gyllideb a'r cyd-destun economaidd y caiff y gyllideb ei llunio ynddo.

¹⁷ Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 9 Rhagfyr 2022

2. Trosolwg a Rhagolygon Economaidd

23. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 ar 13 Rhagfyr 2022, ac roedd yn cynnwys y dogfennau a ganlyn:

- Naratif y Gyllideb Ddrafft¹⁸
- Cynigon y Gyllideb Ddrafft¹⁹
- Llinellau gwariant y gyllideb²⁰
- Tablau sy'n ategu'r cynlluniau gwario²¹
- Taflen y Gyllideb Ddrafft²²

24. Yn ogystal, cyhoeddwyd y canlynol ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft fel dogfennau ategol:

- Adroddiad y Prif Economegydd²³
- Llif Prosiectau Buddsoddi mewn Seilwaith²⁴
- Cynllun gwella'r gyllideb²⁵
- Adroddiad ar bolisi trethi. Rhagfyr 2022²⁶
- Canllaw Cyflym Cyfraddau Treth Incwm Cymru²⁷
- Rhagolwg Trethi Cymru²⁸

25. Ar y cyfan, mae cyfanswm y Gyllideb Ddrafft yn dyrannu tua £22.9 biliwn. Mae hyn yn gynydd o £1.2 biliwn o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2022-23, sy'n cyfateb i gynydd o 5.7 y cant mewn termau arian parod a chynnydd o 2.4 y cant mewn termau real, yn seiliedig ar dachwyddydd cynnyrch domestig gros

¹⁸ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2023-24, Cyllideb mewn Cyfnod Anodd, Rhagfyr 2022

¹⁹ Llywodraeth Cymru, Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2023-24, Rhagfyr 2022

²⁰ Llywodraeth Cymru, Llinellau Gwariant Cyllideb 2023-24, Rhagfyr 2022

²¹ Llywodraeth Cymru, Tablau sy'n ategu'r cynlluniau gwario, Rhagfyr 2022

²² Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft: Taflen, Rhagfyr 2022

²³ Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Prif Economegydd, Rhagfyr 2022

²⁴ Llywodraeth Cymru, Llif Prosiectau Buddsoddi mewn Seilwaith, Rhagfyr 2022


²⁵ Llywodraeth Cymru, Cynllun Gwella'r Gyllideb, Rhagfyr 2022

²⁶ Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar bolisi trethi, Rhagfyr 2022

²⁷ Llywodraeth Cymru, Cyfraddau Treth Incwm Cymru: Canllaw Cyflym, Rhagfyr 2022

²⁸ Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolwg Trethi Cymru, Rhagfyr 2022

Tachwedd 2022. Dangosir newidiadau cyffredinol gyllideb yn y ffeithluniau a ganlyn:



Cyfanswm dyraniad refeniw a chyfalaf **Newid Cyllideb Derfynol 2022-23 i Gyllideb Ddrafft 2023-24**

	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	£10,758m	£626m 6.2%	▲
	Cyllid a Llywodraeth Leol*	£5,114m	£462m 9.9%	▲
	Newid Hinsawdd	£2,845m	£34m 1.2%	▲
	Y Gymraeg ac Addysg**	£2,647m	£76m 3.0%	▲
	Yr Economi	£554m	£68m 14.1%	▲
	Materion Gwledig	£447m	£54m 13.8%	▲
	Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	£358m	£5m 1.3%	▲
	Cyfiawnder Cymdeithasol	£160m	-£87m -35.2%	▼

Ffynonellau: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23 a Chyfrifiadau Ymchwil y Senedd

26. Rhoddodd Datganiad yr Hydref 2022, a gyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys ar 17 Tachwedd 2022, gyllid net ychwanegol o £666 miliwn yn 2023-24 a £508 miliwn yn 2024-25;²⁹ sef £1.2 biliwn yn ychwanegol i Lywodraeth Cymru dros y ddwy flynedd nesaf.³⁰ Mae toriadau arfaethedig y Canghellor i'r sector cyhoeddus wedi'u cynnwys ym mlynnyddoedd diweddarach y setliad ac nid ydynt wedi'u hadlewyrchu yn y Gyllideb Ddrafft.

27. Mae Llywodraeth Cymru wedi ail-flaenoriaethu cyllid gwerth £87.4 miliwn o'r tu mewn i gynlluniau adrannol presennol "i ail-ganolbwyntio [ei] hadnoddau cyfyngedig ar y meysydd lle mae'r angen mwyaf".³¹ Eglurodd y Gweinidog:

*"...one of the exercises that we undertook was to reprioritise budgets across the Government, to try and free up some additional funding for the next financial year to be redistributed. And one of the principles behind that was that we should still maintain our commitments to our programme for government."*³²

28. O ran effaith y Gyllideb Ddrafft ar y Cytundeb Cydweithio³³ rhwng Llafur a Phlaid Cymru, cadarnhaodd y Gweinidog:

*"The budget doesn't propose any changes to the co-operation agreement areas where there was funding attached. Within the co-operation agreement, there are 13 areas that explicitly have funding attached to them, and we haven't made any changes to those in the draft budget."*³⁴

Rhagolygon Economaidd

29. Mae Llywodraeth Cymru'n wynebu nifer o heriau yn 2023-24. Yn ôl y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), disgwyl y cwmp mwyaf mewn safonau byw eleni a'r flwyddyn nesaf ers i gofnodion ddechrau.³⁵ Dyma'r pwyntiau allweddol a glywodd y Pwyllgor yn ystod ei waith craffu ar y Gyllideb Ddrafft:

²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 20

³⁰ Trysorlys EM, Papur Polisi: Datganiad yr Hydref 2022, 17 Tachwedd 2022 (Saesneg yn unig)

³¹ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2023-24: Cyllideb mewn Cyfnod Caled, Rhagfyr 2022, Tudalen 30

³² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 26

³³ Llywodraeth Cymru, Y Cytundeb Cydweithio, 16 Rhagfyr 2021

³⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 123

³⁵ Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Y rhagolygon ar gyfer incwm a defnydd cartrefi, Tachwedd 2022 (Saesneg yn unig)

- Mae'r DU yn debygol o fynd i ddirwasgiad y mae disgwyl iddo barhau am dros flwyddyn.³⁶
- Mae disgwyl i ddiweithdra gynyddu, tra bod anweithgarwch economaidd yn uchel.³⁷
- Mae chwyddiant yn cael effaith sylweddol ar yr hyn y gellir ei brynu gyda'r cronfeydd presennol; mae'r OBR yn amcangyfrif y bydd chwyddiant CPI yn 10 y cant ar gyfartaledd dros 2022-23 a 5.5 y cant yn 2023-24, a rhagwelir y bydd y datchwyddydd cynnyrch domestig gros yn 4.9 y cant yn 2022-23 a 3.2 y cant yn 2023-24;³⁸ bydd gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu chwyddiant rywle rhwng y ddau ffigwr.
- Mae disgwyl i gyflogau termau real barhau i ostwng, a hynny dros 4 y cant yn 2022-23 a bron i 3 y cant yn 2023-24.³⁹
- Bydd cynigion cyflogau'r sector cyhoeddus yn 2022-23 a 2023-24 yn effeithio'n sylweddol ar gyllidebau, yn enwedig gan fod cyflogau'r sector cyhoeddus datganoledig yn cyfrif am oddeutu hanner y gwariant refeniw.⁴⁰
- Mae cost benthyca Llywodraeth y DU wedi cynyddu'n sylweddol.

30. Dywedodd Dadansoddi Cyllid Cymru (WFA) wrth y Pwyllgor fod y rhagolygon ar ôl y cyfnod adolygu gwariant yn arbennig o ddigalon... o ystyried y cynlluniau roedd Llywodraeth y DU wedi'u hamlinellu.⁴¹ Ychwanegodd bod ansicrwydd ynghylch a fydd y cynlluniau gwariant hynny yn dwyn ffrwyth.⁴²

31. Fodd bynnag, yn fuan ar ôl Datganiad yr Hydref, dywedodd yr OBR wrth Bwyllgor Dethol y Trysorlys ar 22 Tachwedd, bod ei rhagolygon twf yn fwy cadarnhaol nag un Banc Lloegr a fwy neu lai yn unol â daroganwyr annibynnol eraill.⁴³ Pan ofynnwyd pam, nododd yr OBR:

³⁶ Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Trosolwg o ragolygon economaidd a chyllidol Tachwedd 2022, 17 Tachwedd 2022 (Saesneg yn unig)

³⁷ Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Trosolwg o ragolygon economaidd a chyllidol Tachwedd 2022, 17 Tachwedd 2022 (Saesneg yn unig)

³⁸ Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon Economaidd a Chyllidol - Tachwedd 2022, Tachwedd 2022 (Saesneg yn unig)

³⁹ Llywodraeth Cymru, Adroddiad 2022 y Prif Economegydd, 13 Rhagfyr 2022, tudalen 12

⁴⁰ Dadansoddi Cyllid Cymru, Rhagolwg Cyllideb Cymru, Rhagfyr 2022, tudalen 6 (Saesneg yn unig)

⁴¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 78

⁴² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 78

⁴³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, paragraff 339

*"The big factor ... is we think households in the UK will save substantially less than they have in recent years, and that will keep consumption and demand a bit stronger."*⁴⁴

32. Credai'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) fod rhagolygon yr OBR yn fwy optimistaidd na rhagolygon eraill oherwydd na fydd pobl yn torri cymaint ar wariant, felly ni fydd ergyd ddwbl ar yr economi ... y byddai gwariant yn gostwng fwy nag incwm".⁴⁵ Nododd yr IFS hefyd fod yr OBR yn credu y bydd rhywfaint o gynnydd mewn twf cynhyrchiant ond mae Banc Lloegr yn tybio y bydd twf cynhyrchiant yn parhau ar lefelau siomedig iawn, iawn.⁴⁶

33. Er gwaethaf eu casgliadau optimistaidd, dywedodd yr OBR fod amrywiol ffactorau wedi gwneud y broses o lunio ei rhagolwg ar gyfer 2023-24 yn heriol:

*"it's been pretty difficult forecasting the UK economy over the last few years—first COVID, then the huge price increases in the wake of the Russian invasion. So, the errors that one has made over the last couple of years are very, very large, and one can't be tremendously confident about being close to our central forecast."*⁴⁷

Chwyddiant

34. Fel y soniwyd o dan baragraff 7, mae chwyddiant uchel yn cael cryn effaith ar yr hyn y gellir ei gyflawni gyda'r cronfeydd presennol. Yn ôl Llywodraeth Cymru, wrth gyfrif am chwyddiant, bydd ei setliad cyffredinol dros y cyfnod adolygu gwariant tair blynedd (2022-23 i 2024-25) yn werth llai mewn termau real na'r hyn yr oedd pan gynhaliwyd Adolygiad o Wariant ym mis Hydref 2021.⁴⁸ Dywedodd Llywodraeth Cymru hefyd na fydd ei chyllideb gyffredinol yn uwch mewn termau real yn 2024-25 nag yn y flwyddyn bresennol ac y bydd cyllidebau cyfalaf 8.1 y cant yn is.⁴⁹

35. Mae chwyddiant uchel wedi effeithio mwy ar rai meysydd nag ar eraill o fewn y Gyllideb Ddrafft, gan gwestiynu, yn bennaf, fforddiadwyedd cynlluniau cyfalaf. Ni roddodd Datganiad yr Hydref 2022 arian cyfalaf ychwanegol i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 a 2024-25 ar ben yr hyn a gyhoeddwyd yn flaenorol. Mae

⁴⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 341

⁴⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 106

⁴⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 106

⁴⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraffau 350-352

⁴⁸ Llywodraeth Cymru Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i Ddatganiad Hydref 2022 y DU, 17 Tachwedd 2022

⁴⁹ Llywodraeth Cymru Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i Ddatganiad Hydref 2022 y DU, 17 Tachwedd 2022

dyraniadau cyfalaf yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24 5.5 y cant yn uwch na'r rhai yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2022-23. Caiff ystyriaeth bellach o gynlluniau cyfalaf Llywodraeth Cymru eu cynnwys ym Mhennod 3.

36. Cyfrifodd y WFA y gallai cyfanswm colledion cyffredinol i Lywodraeth Cymru yn sgil chwyddiant, hyd yn oed ar ôl y cyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth y DU yn Natganiad yr Hydref, fod dros £800 miliwn yn 2023-24 a £600 miliwn yn 2024-25.⁵⁰ Daeth yr IFS i gasgliadau tebyg.⁵¹ Roedd y rhain yn adlewyrchu'r hyn a fynegodd y Gweinidog yn fuan wedi i Ddatganiad yr Hydref gael ei gyhoeddi pan ddywedodd wrth y Senedd "[nad] yw'r arian ychwanegol yn dod yn agos at yr hyn sydd ei angen arnom ni i fodloni'r pwysau ar bob rhan o'n cyllideb".⁵²

37. Nododd WFA ansicrwydd i sefyllfa ariannu Llywodraeth Cymru o ganlyniad i chwyddiant:

*"It's quite difficult to properly assess, or accurately assess, how much the cost pressures have increased for public services. What we usually use, the gross domestic product deflator measure of inflation, probably doesn't fully capture the extent of cost pressures facing public services, and the increase in cost pressures compared to what we were expecting."*⁵³

38. Esboniodd IFS y byddai cyfuniad o chwyddiant uchel a chwymp o ran incwm aelwydydd yn effeithio'n sylweddol ar y gofynion a roddir ar Lywodraeth Cymru:

*"There may be pressure to offer support to households. There may also be greater demand for certain public services, higher demand for the council tax reduction scheme as a result of increases in unemployment, and so on."*⁵⁴

39. Dywedodd yr OBR wrth y Pwyllgor nad oedd y pwysau chwyddiant a brofwyd eleni yn debygol o barhau oherwydd y byddai prisiau olew a nwy yn gostwng yn ôl dros y blynnyddoedd nesaf. Nododd y canlynol:

"That [the predicted fall in oil and gas prices] is probably the single biggest factor behind the prediction that the rate of inflation is going to drop back down really quite substantially

⁵⁰ Dadansoddi Cyllid Cymru. Rhagolygon Cyllideb Cymru 2022. Rhagfyr 2022, tudalen 20.

⁵¹ Sefydliad Astudiaethau Cyllidol. Goblygiadau Datganiad yr Hydref a'r Rhagolygon Economaidd a Chyllido i Gymru a Llywodraeth Cymru, 28 Tachwedd 2022, sleid 19 (*Saesneg yn unig*)

⁵² Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 22 Tachwedd 2022, paragraff 192

⁵³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 13

⁵⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 16

by the end of this year and during the course of 2024, and we think to a very low level of virtually no inflation as you move through 2024.”⁵⁵

40. Fodd bynnag, rhybuddiodd hefyd y bydd chwyddiant, oherwydd bod prisiau nwy uwch yn cael eu gyrru gan ffactorau daearwleidyddol yn ogystal â'r tywydd yn Ewrop a'r defnydd o nwy, yn parhau i fod yn gyfnewidiol iawn ac yn dibynnu ar ddatblygiad y rhyfel.⁵⁶

41. Wrth gael ei holi am yr effaith roedd chwyddiant yn ei chael ar y Gyllideb Ddrafft, dywedodd y Gweinidog y bydd rhannau o'r gyllideb lle na fydd yn bosibl cyflawni cymaint ag y bwriadwyd yn wreiddiol.⁵⁷

42. Dywedodd swyddog y Gweinidog:

“...we haven't really been able to reflect fully those inflationary pressures anywhere in the budget, just because they are so substantial and our funding is not growing at anything like the rate of inflation that we're seeing across the board.”⁵⁸

Cysylltiadau rhynglywodraethol

43. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor, bod Llywodraeth Cymru ond wedi cael gwybod am ei setliad wedi i'r Canghellor wneud ei ddatganiad sy'n amlwg ddim yn ddelfrydol o bell ffordd.⁵⁹ Teimlai'r Gweinidog fod hon yn agwedd anffodus y dylid ei hosgoi yn y dyfodol:

“...we had to watch the statement and get the information from that at the same time as everybody else, despite the fact that it has implications for us ... I just think the courtesy of a call before the statement is important, and I wouldn't want to see that repeated again.”⁶⁰

44. Mynegodd y Gweinidog bryderon hefyd ynghylch y diffyg tryloywder llwyr⁶¹ sy'n gysylltiedig â'r cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Ffyniant

⁵⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraffau 350-352

⁵⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraffau 350-352

⁵⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 11

⁵⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 31

⁵⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 67

⁶⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 67

⁶¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 68

Cyffredin (SPF) Llywodraeth y DU o gofio ei bod wedi'i hychwanegu at gyllideb adrannol yn Llywodraeth y DU. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

*"...our officials, the Welsh Local Government Association, yourselves, all had to try and seek some clarity as to what had happened. And, essentially, the £400 million has been added to the Department for Levelling Up, Housing and Communities' budget."*⁶²

45. Ategwyd y pryderon hyn gan swyddog y Gweinidog, gan gydnabod fod hwn yn faes heriol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, o gofio'r diffyg eglurder am y ffrydiau cyllido, gan ychwanegu mai prin iawn yw'r ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch sut y byddant yn gweithio'n ymarferol.⁶³

46. Mynegodd CLILC sylwadau ynghylch anawsterau ymarferol o ran y cronfeydd newydd hyn, gan ddweud bod materion yn ymwneud â thelerau ac amodau yn ei gwneud bron yn amhosibl gwario cyllid erbyn mis Mawrth 2023.⁶⁴ Cyhoeddodd Llywodraeth y DU fanylion y prosiectau oedd wedi cael arian arian drwy Ail Gylch y Gronfa Ffyniant Bro ar 18 Ionawr 2023.⁶⁵

Barn y Pwyllgor

47. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am sut y bydd cyfuniad o chwyddiant, pwysau ar gyflogau a chostau adeiladu yn effeithio ar werth y cyllid cyffredinol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y rhagolygon economaidd arbennig o anodd a'r cyd-destun y mae Llywodraeth Cymru yn gosod ei Chyllideb Ddrafft ynddi Mae hefyd yn nodi barn yr OBR bod cryn ansicrwydd ac anwadalwch yn y rhagolygon, a gaiff eu gwaethygu gan ffactorau byd-eang y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru.

48. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysau chwyddiant a'r ansicrwydd y mae'n ei achosi i sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru. At hynny, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd i gefnogi'r pwysau cynyddol a roddir ar wasanaethau cyhoeddus ac aelwydydd wrth liniaru effaith yr argyfwng costau byw (archwilir y rhain yn fwy manwl ym Mhennod 5). Rydym hefyd yn deall bod cyflwyno effaith chwyddiant ar gyllidebau yn heriol, o ystyried y symiau sylweddol o dan sylw.

⁶² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 68

⁶³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 203

⁶⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 248

⁶⁵ Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. Stori Newyddion: Landmark Levelling Up Fund to spark transformational change across the UK. 18 Ionawr 2023 (*Saesneg yn unig*)

49. Ond credwn y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i esbonio effaith chwyddiant ar ei chynlluniau gwariant ar gyfer 2023-24. Mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau'r Gweinidog na fydd Llywodraeth Cymru yn gallu gwireddu cymaint ag a fwriadwyd yn wreiddiol drwy'r Gyllideb Ddrafft hon, ond rydym yn ei hystyried yn siom bod manylion yr hyn na ellir eu cyflawni yn absennol a gofynnwn i'r wybodaeth hon gael ei darparu.

50. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod ansicrwydd ynglŷn â gwerth y Gyllideb Ddrafft, a achosir gan bwysau chwyddiant uchel, wedi gwaethygu ymhellach yn sgil cyfathrebu gwael rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Gresyn bod y Gweinidog wedi gorfod aros nes i'r Canghellor gyflwyno ei Ddatganiad yr Hydref cyn deall ei effaith ar sefyllfa gyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn ei gwneud yn anos i Lywodraeth Cymru gynllunio ei dull cyllidebol yn effeithiol ac nid yw'n adlewyrchu perthynas waith effeithiol sy'n sail i sianeli cyfathrebu llyfn sy'n seiliedig ar gyd-barch.

51. Mae'r Pwyllgor hefyd yn siomedig bod diffyg tryloywder gan Lywodraeth y DU yn effeithio ar y trefniadau ar gyfer gweinyddu cronfeydd yng Nghymru ar ôl gadael yr UE. Gyda phryder, nododd adroddiad y Pwyllgor ar ei ymchwiliad i'r mater hwn ym mis Hydref 2022⁶⁶, y diffyg ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran datblygu'r cronfeydd hyn.⁶⁷ Gwnaeth argymhellion hefyd gyda'r nod o wella cyfathrebu rhwng y llywodraethau ac ar esmwytho'r materion ymarferol wrth weithredu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.⁶⁸ Gresyn mawr yw fod y problemau hyn yn parhau.

52. Felly mae angen gwell deialog rynglywodraethol rhwng y ddwy lywodraeth ar unwaith, fel bod sicrwydd am sefyllfa ariannu flynyddol ac yn ystod y flwyddyn i Lywodraeth Cymru yn cael ei roi. Rydym wedi argymhell yn flaenorol bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad rheolaidd i'r Pwyllgor ar y dulliau rhynglywodraethol a sefydlwyd i sicrhau eu bod yn fodd effeithiol o uwchgyfeirio anghytundebau a datrys anghydfodau ariannu⁶⁹ a darparu rhagor o wybodaeth am y sefyllfa o ran datrys anghydfodau.⁷⁰ Nodwn ymateb Llywodraeth Cymru ar y pwyntiau hyn⁷¹ gan groesawu'r cynnydd a wneir, sy'n cynnwys y bwriad i'r Gweinidog hysbysu'r Pwyllgor o gyfarfodydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

⁶⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Trefniadau Ariannu ar ôl Gadael yr UE, 10 Hydref 2022

⁶⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Trefniadau Ariannu ar ôl Gadael yr UE, 10 Hydref 2022, Paragraff 61

⁶⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Trefniadau Ariannu ar ôl Gadael yr UE, 10 Hydref 2022, Argymhellion 11 a 12

⁶⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, Chwefror 2022, Argymhelliad 11

⁷⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Trefniadau Ariannu ar ôl Gadael yr UE, 10 Hydref 2022, Argymhelliad 17

⁷¹ Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion o Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Trefniadau Ariannu ar ôl gadael yr UE, 21 Tachwedd 2022

ar Gyllid yn y dyfodol.⁷² Mae'r materion hyn hefyd wedi bod yn rhan o drafodaethau gyda chymheiriaid mewn deddfwrfeydd datganoledig eraill drwy Fforwm y Pwyllgorau Cyllid Rhyngseneddol, a sefydlwyd y llynedd.⁷³

53. Er ein bod yn croesawu trafodaeth gyson y Gweinidog ar y mater hwn, mae'r ffaith eu bod yn parhau heb eu datrys yn peri rhwystredigaeth, ac ailadroddwn ein barn bod angen strwythurau rhynglywodraethol cadarn ar natur cyfansoddiad y DU i ymdrin â materion cyllid, yn enwedig o ran datrys anghydfodau, a bod y Gweinidog yn parhau i godi'r materion hyn gyda chymheiriaid gweinidogol yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu asesiad llawn o'r effaith a gaiff chwyddiant ar ei sefyllfa gyllido ar gyfer 2023-24 a'r newidiadau i'r canlyniadau y disgwylir eu cyflawni o fewn y cyfnod hwnnw.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU, drwy'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid a sianeli eraill, i sefydlu dulliau rhynglywodraethol cadarn sy'n ymwneud â materion cyllidol i sicrhau y gall uwchgyfeirio anghytundebau yn effeithiol a datrys anghydfodau ariannu.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am ddulliau annibynnol i ddatrys anghydfodau cyllid rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a rhoi diweddariad ar y defnydd ohonynt.

⁷² Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 30 Ionawr 2023

⁷³ Y Pwyllgor Cyllid, Datganiad ar y Cyd gan Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid, 16 Mehefin 2022

3. Ysgogiadau Cyllidol

Trethi Datganoledig

54. Mae tair treth Gymreig wedi'u datganoli: cyfraddau treth incwm Cymru, treth trafodiadau tir a threth gwarediadau tirlenwi. Mae dwy dreth leol - y dreth gyngor a chyfraddau annomestig - hefyd yn darparu refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus.

55. Mae egwyddorion Llywodraeth Cymru a'r dull o drethu yng Nghymru wedi'i nodi yn ei Fframwaith Polisi Trethi, a gafodd ei ddiweddarau ddiwethaf ym mis Tachwedd 2021.⁷⁴ Adroddir ar gynnydd o ran gweithredu'r blaenoriaethau a nodir yn y fframwaith hwnnw drwy Adroddiad Polisi Trethi Cymru, a gyhoeddir yn flynyddol gan y Gweinidog ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft.⁷⁵ Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol sy'n gyfrifol am ddarparu rhagolygon annibynnol o refeniw trethi Cymru. Cafodd ei rhagolwg trethi Cymru diweddaraf⁷⁶ ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ac mae'n nodi rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer pob un o drethi datganoledig Cymru.

56. Cyhoeddodd y Canghellor sawl newid i bolisi treth incwm y DU fel rhan o Ddatganiad yr Hydref. Roedd hyn yn cynnwys:

- Estyn y rhewi yn y lwfans personol gan ddwy flynedd arall hyd at ddiwedd 2027-28.
- Estyn y rhewi yn y trothwy cyfradd uwch gan ddwy flynedd arall hyd at ddiwedd 2027-28.
- Lleihau'r trothwy cyfradd ychwanegol o £150,000 i £125,140 o Ebrill 2023, a fydd yn parhau i fod ar gyfradd sefydlog wedi hynny.⁷⁷

57. Esboniodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol mai prif effaith y newidiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yw sicrhau bod llawer mwy o drethdalwyr yn talu trethi, sy'n cynnwys trethdalwyr newydd a hefyd bod mwy o bobl yn talu cyfraddau ychwanegol. Nododd Dadansoddi Cyllid Cymru y byddai gostwng y trothwy cyfradd ychwanegol o £150,000 yn cael effaith sylweddol yng Nghymru

⁷⁴ Llywodraeth Cymru, Diweddariad ar y Fframwaith Polisi Trethi, Tachwedd 2021

⁷⁵ Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2022, Rhagfyr 2022

⁷⁶ Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon trethi Cymru, Rhagfyr 2022

⁷⁷ Trysorlys EM, Araith Datganiad yr Hydref 2022, 17 Tachwedd 2022 (Saesneg yn unig)

gan ei fod fwy neu lai yn dyblu nifer y trethdalwyr yng Nghymru sy'n talu'r gyfradd dreth 45c.⁷⁸

Cyfraddau Treth Incwm Cymru

58. Cyfraddau treth incwm Cymru yw'r ffynhonnell fwyaf arwyddocaol o refeniw trethi a reolir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cyfateb i 12 y cant o'r gyllideb gyfan.⁷⁹ Roedd rhagolygon trethi Cymru diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn diwygio'r holl ragolygon blaenorol ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru o fis Mawrth 2022 tuag i lawr.⁸⁰ Mae hyn yn cyfateb i israddio o £319 miliwn o 2022-23 i 2026-27, gyda derbyniadau £55 miliwn (1.9 y cant) y flwyddyn yn is ar gyfartaledd na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol.

59. Nododd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol fod y rhagolygon isaf i gyfraddau treth incwm Cymru, i raddau helaeth, yn adlewyrchu'r diwygiadau tuag i lawr i'w rhagolwg ledled y DU.⁸¹ Fodd bynnag, er gwaethaf y gostyngiad yn y rhagolygon, mae derbyniadau cyfraddau treth incwm Cymru mewn termau arian parod yn parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn hyd at 2026-27.⁸²

60. Nododd Dadansoddi Cyllid Cymru y byddai refeniw trethi yn cael effaith fuddiol ar gyllid Llywodraeth Cymru yn 2023-24. Dywedodd fod refeniw trethi tua £174 miliwn yn fwy na'r addasiad i'r grant bloc sydd wedi'i dynnu i ffwrdd yn 2023-24 gan ychwanegu bod hyn yn cyfateb i bron ceiniog ar gyfradd sylfaenol treth incwm yn cael ei ychwanegu at gyllideb Cymru a gwariant o ddydd i ddydd heb orfod newid polisi trethi gymaint â hynny.⁸³ Cytunodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid fod rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn awgrymu gwelliant bach yn safle'r dreth net dros y ddwy flynedd nesaf.⁸⁴

61. Yn ôl amcangyfrifon diweddaraf Llywodraeth Cymru, byddai newid cyfraddau treth incwm Cymru gan 1 ceiniog yn cael yr effaith a ganlyn ar ei refeniw trethi:

- Cyfradd sylfaenol (incwm trethadwy rhwng £12,571 a £50,270): +/- £237 miliwn;

⁷⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 111

⁷⁹ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2022-23 - Cyllideb mewn Cyfnod Anodd, Rhagfyr 2021, tudalen 3

⁸⁰ Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon trethi Cymru, Rhagfyr 2022

⁸¹ Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon trethi Cymru, Rhagfyr 2022, tudalen 18

⁸² Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon trethi Cymru, Rhagfyr 2022, tudalen 18

⁸³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 109

⁸⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 21

- Cyfradd sylfaenol (incwm trethadwy rhwng £12,571 a £50,270): +/- £237 miliwn;
- Cyfradd ychwanegol (incwm trethadwy o dros £150,000): +£3 miliwn, -£4 miliwn.⁸⁵

62. Awgrymodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y dylid cynyddu cyfraddau treth incwm uwch ac ychwanegol cyfraddau treth incwm Cymru hyd yn oed os gwneir hyn dim ond i ddiogelu rhai o'r meysydd blaenoriaeth gwirioneddol heriol, fel yr hinsawdd, bioamrywiaeth, a hynny er mwyn dod drwy'r gwaethaf.⁸⁶

63. Fodd bynnag, roedd Dadansoddi Cyllid Cymru yn teimlo bod dull o'r fath yn peri problemau oherwydd y symiau cymharol fach a fyddai'n cael eu casglu trwy godi'r cyfraddau uwch ac ychwanegol yn unig yng Nghymru. Daeth Dadansoddi Cyllid Cymru i'r casgliad y byddai angen newid cyfradd sylfaenol y dreth incwm os am gynyddu lefelau perthnasedd cyllid i newid y rhagolwg ar gyfer cyllideb Cymru.⁸⁷

64. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw'r cyfraddau treth incwm Cymru cyfredol ar gyfer 2023-24.⁸⁸ Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod wedi meddwl yn hir ynglŷn â'r dull o ymdrin â chyfraddau treth incwm Cymru,⁸⁹ ac oherwydd amgylchiadau economaidd nad oedd yn teimlo fel yr amser cywir i fod yn codi trethi ar bobl.⁹⁰

65. Wrth gyfiawnhau'r penderfyniad i beidio â chynyddu cyfraddau treth incwm Cymru, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod cyfyngiadau ar y pŵer i wneud hynny, yn enwedig os oedd yn cael ei ddefnyddio fel modd o godi refeniw ar gyfer cynnydd parhaol penodol, fel cyflogau'r sector cyhoeddus:

*"...even if we were to raise Welsh rates of income tax to cover an element of pay ... one pence on the basic rate, which would affect everybody, only brings in £238 million. So, it doesn't meet the kind of level of funding that would be needed in any case, and, obviously, it would have to be a permanent increase as well."*⁹¹

⁸⁵ Llywodraeth Cymru, Canllaw Cyflym Cyfraddau Treth Incwm Cymru 2023 i 2024. Rhagfyr 2022

⁸⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 164

⁸⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 122

⁸⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 70

⁸⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 70

⁹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 70

⁹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 160

66. Dywedodd y Gweinidog nad oedd effeithiau ymddygiadol cynyddu'r cyfraddau uwch ac ychwanegol yn hysbys ar hyn o bryd. Dywedodd hefyd:

*"... when we are talking about some of the very highest earners, they do have options that other people don't have, in the sense that many of those people on additional rates might have additional properties elsewhere, and they can change their arrangements so that their permanent or main home is not in Wales, and then they don't end up paying any of their tax here. So those are the kind of behavioural changes that people might make. But this wouldn't be the time to start testing some of that."*⁹²

Rhagolygon

67. Roedd tystiolaeth gan y Gweinidog a'r tystion yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch methodolegau ac ansawdd rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Fodd bynnag, awgrymodd Dadansoddi Cyllid Cymru a'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid fân ychwanegiad i gyhoeddiad Rhagolwg Trethi Cymreig y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Byddai hyn yn golygu symud manylion yn ymwneud â refeniw trethi Cymru o gymharu â rhagolygon refeniw Llywodraeth y DU yn ei gyfanrwydd, o'r atodiadau i brif gorff yr adroddiad.

68. Awgrymodd Dadansoddi Cyllid Cymru hefyd y gallai rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol gyflwyno gwybodaeth am yr addasiad i'r grant bloc mewn ffordd fwy defnyddiol, gan ychwanegu bod amrywiadau mawr yn y rhagolygon ac nad yw'r naratif yn eu hesbonio mewn gwirionedd. Esboniodd hefyd ei bod yn anodd iawn mesur beth sydd wrth wraidd y gwahaniaeth hwnnw mewn perfformiad cymharol.⁹³ Cytunodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid fod y rhagolygon presennol yn dangos bod cyfle wedi'i golli ac esboniodd y gallai'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wneud mwy i esbonio effaith net hynny a pham mae hynny'n newid.⁹⁴

69. Mewn ymateb i'r pwyntiau hyn, dywedodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ei fod yn rhywbeth y byddai angen iddi ryngweithio mwy â'r Trysorlys yn ei gylch yn ystod y broses gan nad yw'r swyddfa ei hun yn gosod unrhyw ran o'r grant bloc ond cytunodd i ymchwilio i'r mater ymhellach.⁹⁵

⁹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 308

⁹³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2022, paragraffau 99-102

⁹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 104

⁹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 362

70. Eglurodd swyddog y Gweinidog fod addasiadau i'r grant bloc yn cael eu cyfrifo ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Trysorlys ac nad oes angen y math o farn annibynnol y mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ei arfer mewn perthynas â'r rhagolwg. Fodd bynnag, nododd y gallai'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wneud hyn ac na fyddai'n ormod o waith ac efallai y gallai ystyried hynny.⁹⁶

71. Pan ofynnwyd a fyddai'n fwy cost-effeithiol i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ddarparu cyfrifiadau o'r fath fel rhan o'i chytundeb gyda Llywodraeth Cymru, neu a fyddai'n rhywbeth y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod bob amser yn agored i ddod o hyd i ragor o ffyrdd o fod yn dryloyw ac yn agored gyda'r wybodaeth a ddarperir.⁹⁷

Datganoli pwerau trethu pellach

72. Ar 15 Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban gynlluniau i gynyddu cyfradd uwch a chyfradd uchaf treth incwm yr Alban i 42 ceiniog a 47 ceiniog yn y drefn honno ar gyfer 2023-24.⁹⁸ Wrth wneud hynny, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban gyfradd gychwynnol a chyfradd ganolraddol hefyd i amddiffyn pobl sy'n ennill cyflogau is rhag y cynnydd yn y dreth incwm.⁹⁹ Mae pwerau trethu Llywodraeth Cymru mewn cymhariaeth yn gyfyngedig. Y rheswm dros hyn yw nad yw cyfraddau treth incwm Cymru yn dreth sydd wedi'i datganoli'n llawn: mae'n rhan o system treth incwm y DU ac felly nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu newid bandiau a/neu gyflwyno trothwyon newydd.

73. Ystyriodd Dadansoddi Cyllid Cymru y cyfyngiadau ymarferol yr oedd hyn yn eu gosod ar Lywodraeth Cymru, a nododd y gallai godi cyfradd sylfaenol y dreth incwm ond y byddai hyn, heb y gallu i gyflwyno trothwyon newydd, hefyd yn golygu cynnydd mewn treth incwm i bobl ar incwm is dros y lwfans personol.¹⁰⁰

74. Pan ofynnwyd a fyddai'n well pe bai gan Lywodraeth Cymru yr un pwerau trethu â Llywodraeth yr Alban, dywedodd y Gweinidog y byddai'n sicr yn rhoi mwy o opsiynau ac y gallai fod manteision i hynny ond roedd yn teimlo y byddai'n rhaid iddi hefyd edrych ar hynny ochr yn ochr â'r risgiau posibl.¹⁰¹ Ymhelaethodd ei swyddog ar y pwynt hwn:

⁹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 307

⁹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 305

⁹⁸ [SPICeSpotlight, Cyllideb yr Alban 2023-24: Pulling the income tax lever, 16 Rhagfyr 2022 \(Saesneg yn unig\)](#)

⁹⁹ [SPICeSpotlight, Cyllideb yr Alban 2023-24: Pulling the income tax lever, 16 Rhagfyr 2022 \(Saesneg yn unig\)](#)

¹⁰⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 122

¹⁰¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 310

“If we were to be exposed to that much greater tax base risk, we would need better tools to manage the risk, for example, in terms of borrowing and scope to smooth unpredictable changes in the tax base ... Yes, you’d get more policy flexibility, but you’d take more risk at the same time, and that balance needs to be thought about.”¹⁰²

75. Fodd bynnag, roedd y Gweinidog yn cydnabod nad oedd Llywodraeth Cymru wedi mynd i’r math yna o ddyfnder mewn gwirionedd o ran asesu’r effaith y byddai gwneud newidiadau o’r fath yn ei chael ar gyllid datganoledig, gan ddod i’r casgliad bod hynny’n bosibl ar gyfer y dyfodol, ond ei bod yn dibynnu ar yr awydd am risg.¹⁰³

76. O ran cynnydd mewn perthynas ag ymdrechion hirsefydlog Llywodraeth Cymru i ddatganoli pwerau i gyflwyno treth ar dir gwag, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

“We have done everything that’s required of us through the process that is set out in terms of making the case for the devolution of a vacant land tax—the powers for a vacant land tax—but we’ve stalled because the UK Government wants to know in great detail how we would use that tax, and that’s really a matter for the Senedd rather than the UK Government, and it shouldn’t really be a factor in the UK Government’s consideration as to whether or not they like things that we’re proposing.”¹⁰⁴

77. Cadarnhaodd y Gweinidog wedi hynny y byddai’n ceisio bwrw ymlaen ymhellach â’r mater hwn gyda Llywodraeth y DU drwy’r trefniadau cysylltiadau rhynglywodraethol newydd.¹⁰⁵

Agweddau ac ymwybyddiaeth y cyhoedd

78. Ymgorfforwyd crynodeb o’r agweddau at bolisiau trethu Llywodraeth Cymru yn yr adroddiad Canfyddiadau Gwaith Ymgysylltu a gynhyrchwyd gan Dîm

¹⁰² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 313

¹⁰³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 327

¹⁰⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 109

¹⁰⁵ Y Pwyllgor Cyllid: Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i’r Pwyllgor Cyllid, 17 Ionawr 2023

Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd ac fe'i seiliwyd ar grwpiau ffocws a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2022.¹⁰⁶

79. Nododd yr adroddiad fod gan bob un a oedd wedi cymryd rhan rywfaint o ymwybyddiaeth o'r trethi sydd wedi cael eu datganoli, ond nid o'r symiau penodol a godir. O ran safbwyntiau'r sawl a gymerodd ran, roedd pob un yn erbyn cynyddu treth incwm ar gyfer y rhai a oedd eisoes yn cael trafferthion ariannol ac yn teimlo y dylai unrhyw gynnydd mewn trethi gael ei gyfeirio at y rheini sydd ar incwm uwch neu fusnesau mawr.¹⁰⁷ Dywedodd un cyfranogwr y canlynol:

*"Ond rwy'n meddwl bod cynyddu trethi sy'n seiliedig ar incwm fel bod y bobl gyfoethocaf yn talu, rwy'n meddwl mai dyna'r ffordd decaf o wneud pethau."*¹⁰⁸

80. Trafodwyd polisiau trethu hefyd yn ystod digwyddiad rhanddeiliaid y Pwyllgor yn Llanhilledd ac yn y sesiwn ymgysylltu ag Aelodau o Senedd leuenctid Cymru. Er nad oedd pob Aelod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am rai trethi ei hun, roedd teimlad cryf nad oedd cynyddu trethi ar hyn o bryd yn syniad da, o gofio y gallai waethygu'r argyfwng costau byw y mae llawer o bobl eisoes yn ei wynebu.¹⁰⁹

Ysgogwyr Cyllidol Eraill

Cyfalaf

81. Roedd Datganiad yr hydref Llywodraeth y DU yn cynnwys ymrwymiad ganddi i gynnal gwariant cyfalaf mewn termau arian parod tan 2027-28.¹¹⁰ Mae naratif y Gyllideb Ddrafft yn cadarnhau na newidiodd DEL Cyfalaf Llywodraeth Cymru o ganlyniad i Ddatganiad yr hydref.¹¹¹ Fodd bynnag, fel y nodwyd yn y Bennod flaenorol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd ei chyllideb gyfalaf 8.1 y cant yn is mewn termau real yn 2024-25 nag yn 2022-23 a hynny o ganlyniad i bwysau chwyddiant.¹¹²

82. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau â'i dull 'gor-raglennu' o gyllidebu ar gyfer cyfalaf o'r llynedd, gyda £98.5 miliwn yn fwy o gyfalaf cyffredinol wedi'i

¹⁰⁶ Senedd Cymru, Adroddiad Ymgysylltu â Dinasyddion, Mehefin 2022

¹⁰⁷ Senedd Cymru, Adroddiad Ymgysylltu â Dinasyddion, Mehefin 2022, paragraff 57

¹⁰⁸ Senedd Cymru, Adroddiad Ymgysylltu â Dinasyddion, Mehefin 2022, paragraff 58

¹⁰⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu - Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, Gorffennaf 2022, paragraffau 39-40

¹¹⁰ Trysorlys EF, Papur Polisi: Datganiad Hydref 2022, 17 Tachwedd 2022 (Saesneg yn unig)

¹¹¹ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2022-23 - Cyllideb mewn Cyfnod Anodd, Rhagfyr 2021, tudalen 5

¹¹² Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i Ddatganiad Hydref y DU 2022, 17 Tachwedd 2022

ddyrannu yn y Gyllideb Ddrafft na'r cyllid sydd ar gael. Mae'r benthyciad cyfalaf blyneddol llawn o £150 miliwn hefyd wedi'i gynnwys yng nghynlluniau Llywodraeth Cymru.¹¹³

83. Teimlai Dadansoddi Cyllid Cymru fod y rhagolygon ar gyfer cyllideb cyfalaf Llywodraeth Cymru yn go ddu o gofio na chafodd cynlluniau gwariant cyfalaf i 2024-25 eu diwygio i fyny er gwaethaf chwyddiant uwch a bod toriadau termau real mewn gwariant cyfalaf ar y gweill y tu hwnt i 2027-28.¹¹⁴

84. Nododd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid hefyd fod y setliad cyfalaf yn y Gyllideb Ddrafft wedi'i lesteirio gan nifer o ffactorau:

*"... whilst there was some top-up to the resource budgets in the short term to partly address higher inflation in the autumn statement, there wasn't that on the capital side, so the increase in inflation and ... in borrowing costs, will have an effect on capital that's not being offset at all. And then, in the longer run, there were cuts, obviously, to the resource spending plans for 2025 onwards, but the cuts to the capital spending plans were even greater, proportionately speaking."*¹¹⁵

85. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dyrannu arian cyfalaf i awdurdodau lleol, gyda chyllid cyfalaf cyffredinol yn codi i £180 miliwn yn 2023-24, o £150 miliwn yn 2022-23.¹¹⁶ Croesawodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y ffigurau hyn gan eu bod yn dychwelyd i lefelau cyfalaf hanesyddol,¹¹⁷ er y nodwyd hefyd fod ei werth wedi diflannu.¹¹⁸ Ychwanegwyd hefyd nad yw'r arian cyfalaf yn ddigonol¹¹⁹ a bod y pŵer prynu sydd gan awdurdodau gyda'r arian cyfalaf sydd ar gael wedi lleihau.¹²⁰

86. Cadarnhaodd swyddog y Gweinidog fod chwyddiant yn cael effaith fawr ar raglen fuddsoddi'r Llywodraeth gan effeithio'n benodol ar raglenni arian cyfalaf, ac yn sicr ar bris isadeiledd yn gyffredinol.¹²¹

¹¹³ [Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2022-23 - Cyllideb i adeiladu Cymru gryfach, tecach a gwyrdd, Rhagfyr 2021, tudalen 20](#)

¹¹⁴ [Dadansoddi Cyllid Cymru, Rhagolwg Cyllideb Cymru 2022, Rhagfyr 2022, tudalen 14 \(Saesneg yn unig\)](#)

¹¹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 48

¹¹⁶ [Llywodraeth Cymru, Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2023-24, 14 Rhagfyr 2022](#)

¹¹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 201

¹¹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 202

¹¹⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 64

¹²⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 66

¹²¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 350

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

87. Mae cyfalaf trafodiadau ariannol yn ymwneud â rhan o gyllideb Llywodraeth Cymru y mae modd ei ddefnyddio dim ond ar gyfer benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i drydydd partïon yn y sector preifat, er enghraifft i gefnogi busnesau a'r sector tai, ac mae'n rhaid ad-dalu cyllid i'r Trysorlys fel arfer. Nid yw cynlluniau ar gyfer cyfalaf trafodiadau ariannol wedi'u cynnwys yn y Gyllideb Ddrafft hon gan adael £57.8 miliwn heb ei ddyrannu.¹²² Fodd bynnag, mae naratif y gyllideb yn ymrwymo i sicrhau bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf trafodiadau ariannol gwreiddiol yn cael eu cynnal a hefyd:

*"Yn ogystal â diweddaru'r sefyllfa o ran y cyllid presennol hwn, rydym yn bwriadu gwneud dyraniadau pellach yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2023-24."*¹²³

88. Mae hyn yn dilyn dull tebyg i'r un a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod ystyriaeth o'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23. Galwodd adroddiad y Pwyllgor y llynedd ar y Gweinidog i ddarparu diweddariad ar ddyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol cyn i'r Gyllideb Derfynol gael ei gosod gerbron y Senedd.¹²⁴ Yn ei hymateb, dywedodd y Gweinidog:

*"Ni fwriedir i hyn greu cynsail ar gyfer y blynyddoedd i ddod, gyda'r bwriad y bydd dyraniadau cyfalaf llawn amser yn y dyfodol yn cael eu hystyried fel rhan o brosesau arferol y Gyllideb Ddrafft yn y dyfodol."*¹²⁵

89. Pan holwyd hi am yr amserlenni ar gyfer dyrannu cyfalaf trafodiadau ariannol ar gyfer 2023-24, dywedodd y Gweinidog:

*"...we're still working through those issues relating to the reclassification of the Development Bank of Wales and trying to understand what exactly that means for the FT requirements of the bank ... and that then will determine the level of funding that we have available".*¹²⁶

¹²² Llywodraeth Cymru, Tablau sy'n cefnogi cynlluniau gwariant, Rhagfyr 2022

¹²³ Llywodraeth Cymru, Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23: Gyllideb mewn Cyfnod Anodd, Rhagfyr 2022, tudalen 5

¹²⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, Chwefror 2022, Argymhelliad 12

¹²⁵ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i'r Pwyllgor Cyllid, 4 Mawrth 2022

¹²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 335

90. Dywedodd swyddog y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod cyfalaf trafodiadau ariannol yn cyfrif am oddeutu £100 miliwn o fewn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24.¹²⁷

Tynnu i lawr o gronfeydd wrth gefn, benthycu a chyllid heb ei ddyrannu

91. Pwysleisiodd y Gweinidog fod hon yn gyllideb sydd o dan bwysau eithriadol ac ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu popeth posibl o fewn ei dyraniadau adrannol ac na fyddai'n disgwyl gwneud dyraniadau pellach nawr cyn y gyllideb derfynol, a hynny gan fod pethau mor dynn ar gyfer y flwyddyn nesaf.¹²⁸

92. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Gweinidog fod modd tynnu mwy i lawr o gronfa wrth gefn Cymru os oes angen gwneud hynny ac mai dyna sut y bydd y Llywodraeth yn rheoli pethau y flwyddyn nesaf.¹²⁹ Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu tynnu £38 miliwn yn unig o gyllid refeniw o gronfa wrth gefn Cymru.¹³⁰ Y swm mwyaf a dynnir yn flynyddol yw £125 miliwn o refeniw a £50 miliwn o gyfalaf.

93. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd am y defnydd o arian wrth gefn gan awdurdodau lleol. Awgrymodd CLILC fod awdurdodau lleol yn ystyried defnyddio arian wrth gefn er mwyn rheoli gorwario.¹³¹ Roedd hefyd o'r farn bod cronfeydd awdurdodau lleol yn cael eu rhannu'n anghyfartal ar draws Cymru, ac ychwanegodd ei bod hi'n anodd iawn rhagweld beth sy'n ddefnydd priodol o gronfeydd wrth gefn.¹³²

94. Pan holwyd y Gweinidog ar y pwynt hwn, roedd yn cydnabod bod angen i awdurdodau lleol ddefnyddio eu cronfeydd wrth gefn eleni er mwyn ymdrin â'r pwysau sy'n eu hwynebu ond pwysleisiodd mai mater i awdurdodau lleol yw gosod eu cronfeydd wrth gefn.¹³³

95. O ran benthycu, cadarnhaodd y Gweinidog mai bwriad y Llywodraeth yw benthycu yr uchafswm sydd ar gael¹³⁴ ond nododd fod y rheolau ynghylch benthycu yn benodol iawn ac nad oes modd ystyried hyn wrth gynllunio gwariant.¹³⁵ Ymhelaethodd y Gweinidog ar hyn drwy ddweud y canlynol:

¹²⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 342

¹²⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 42

¹²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 45

¹³⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 42

¹³¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 4

¹³² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 180

¹³³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 465

¹³⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 73

¹³⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 79

“the size of our Wales reserve, and the limits that we have on drawdown, haven’t changed at all since that reserve was set up. And, at the very least, they should move in line with inflation”¹³⁶

96. Roedd ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgor hefyd yn nodi’r cyfyngiadau ar bwerau benthyg Llywodraeth Cymru. Tynnodd Cwmpas sylw at bapur y Sefydliad Materion Cymreig a gyhoeddwyd yn ddiweddar¹³⁷ ar ehangu pwerau benthyg llywodraeth er mwyn hwyluso buddsoddiad angenrheidiol ar gyfer polisi trawsnewidiol yng Nghymru.¹³⁸

Datganoli gweinyddiaeth budd-daliadau

97. Pan ofynnwyd i’r Gweinidog am ei barn ynghylch gweinyddu budd-daliadau i Gymru, yn debyg i’r hyn sydd eisoes wedi’i ddatganoli i’r Alban, dywedodd y Gweinidog ei fod yn rhywbeth y mae angen i’r Llywodraeth ymchwilio iddo’n llawn¹³⁹ gan ychwanegu:

“One of the challenges is that you end up implementing UK Government cuts, but if we were able to have those powers, we could potentially do that in a fairer way.”¹⁴⁰

98. Ond dywedodd y Gweinidog hefyd nad yw’n debygol o gwbl y caff unrhyw bwerau pellach eu ddatganoli gan Lywodraeth presennol yn y DU.¹⁴¹

99. Nododd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid sut y caiff y trefniadau hyn eu gweithredu yn yr Alban lle mae angen i Lywodraeth yr Alban drosglwyddo cyllid o wasanaethau eraill i dalu am ei pholisïau budd-daliadau nawdd cymdeithasol a hefyd bod costau polisïau Llywodraeth yr Alban yn uwch na symiau canlyniadol a geir gan Lywodraeth y DU. Dywedodd Dadansoddi Cyllid Cymru na fyddai cymryd cam o’r fath yn anghynaliadwy yn ariannol ond y byddai’n dibynnu ar drafodaethau rhwng y ddwy Lywodraeth sut yn union y byddai’r grant bloc yn cael ei addasu i ariannu’r pwerau ar ôl iddynt gael eu datganoli.¹⁴²

100. Ychwanegodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid fod cyflwyno budd-daliadau newydd yn ychwanegu cryn dipyn o risg ychwanegol i broses y gyllideb oherwydd

¹³⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 330

¹³⁷ Y Sefydliad Materion Cymreig, Fiscal Firepower: Effective Policy-Making in Wales, 11 Hydref 2022 (Saesneg yn unig)

¹³⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i’r Ymgynghoriad: Cwmpas (Saesneg yn unig)

¹³⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 179

¹⁴⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 177

¹⁴¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 177

¹⁴² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 136

yr ansicrwydd ynghylch faint o bobl fydd yn manteisio arno a beth fydd yn penderfynu pwy sy'n gymwys. Esboniodd y gall y pethau hyn newid cryn dipyn, ac mae hynny'n rhywbeth fydd yn effeithio ar ba mor anwadal yw'r fframwaith cyllidol, ac efallai y bydd angen pwerau benthyg ychwanegol yn hynny o beth.¹⁴³

Barn y Pwyllgor

101. Mae'r Pwyllgor wedi'i galonogi gan dystiolaeth o'i waith ymgysylltu â dinasyddion sy'n awgrymu bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r trethi datganoledig a sut y'u defnyddir. Fodd bynnag, mae'n siomedig bod cyfranogwyr iau wedi dangos diffyg gwybodaeth am y mathau o drethi sydd wedi'u datganoli a'r symiau o refeniw a godir. Bydd y Pwyllgor yn parhau i asesu barn ei randdeiliaid ar drethi datganoledig, yn ogystal â materion eraill sy'n ymwneud â'r Gyllideb Ddrafft, a hynny fel rhan o'i waith ymgysylltu cyn cylch y gyllideb 2024-25.

102. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r farn a fynegwyd ar amrywio cyfraddau treth incwm Cymru a'r symiau o refeniw y byddai newid y cyfraddau yn eu creu i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, er bod y penderfyniad i beidio â chodi cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2023-24 yn ddealladwy, mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw'r Gweinidog a'i swyddogion wedi cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o sut y byddai codi a/neu ostwng cyfraddau treth incwm Cymru yn effeithio ar ymddygiad.

103. Mae'n hanfodol bod unrhyw benderfyniadau ynghylch cyfraddau trethi datganoledig yn cael eu llywio gan ddata cywir a chynhwysfawr. Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chynnal asesiadau o'r fath yn ystod rownd y gyllideb hon yn awgrymu nad oedd y Gweinidog wedi ystyried o ddifrif newid y cyfraddau treth ar gyfer 2023-24 a bod bylchau yn y data a gesglir ganddi a hefyd o ran dealltwriaeth o sut y mae'r dreth yn gweithredu yng nghyd-destun Cymru. Ar sail hyn, mae'r Pwyllgor yn galw am fwy i gael ei wneud er mwyn cael dealltwriaeth lawnach o'r effaith y byddai newid cyfraddau treth incwm Cymru yn ei chael.

104. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r farn a fynegwyd gan randdeiliaid ar y gwahaniaethau rhwng pwerau trethu yng Nghymru a'r Alban ac yn arbennig gallu Llywodraeth yr Alban i gyflwyno bandiau a throthwyon treth incwm newydd. Er bod y Pwyllgor yn derbyn nad yw efelychu pwerau o'r fath mewn cyd-destun Cymreig yn syml ac y byddai rhywfaint o risg yn sgil gwneud hyn, byddem yn croesawu pe bai'r Gweinidog yn ystyried y mater hwn ymhellach. Credwn yn gryf y dylai Llywodraeth

¹⁴³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 138

Cymru ystyried a yw ei phwerau trethu'n ddigonol i ganiatáu ar gyfer datblygu polisi trethi datganoledig penodol a all ddiwallu anghenion Cymru.

105. Yn yr un modd, mae'r Pwyllgor yn nodi barn y Gweinidog am ddatganoli pwerau sy'n ymwneud â gweinyddu budd-daliadau ac, unwaith eto, y risgiau sydd ynghlwm â gwneud hynny. Fel gyda datganoli pwerau i addasu bandiau a throthwyon trethi, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen mwy o waith yn y maes yma i asesu ei effaith debygol ar Gymru, gan gynnwys a fyddai angen addasu'r grant bloc.

106. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r farn gadarnhaol gan dystion ar ansawdd y rhagolygon a gynhyrchir mewn perthynas â threthi Cymru. Fodd bynnag, clywsom dystiolaeth hefyd y gellid gwella'r broses o gyflwyno gwybodaeth o fewn y rhagolygon, yn enwedig y cyfrifiadau'n ymwneud ag addasiad i'r grant bloc.

107. Mae'r Pwyllgor yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i ganfod ffyrdd o fod yn fwy tryloyw ac agored gyda'r wybodaeth sy'n cael ei darparu ar addasiadau i'r grant bloc fel rhan o waith rhagfynegi Llywodraeth Cymru. Rydym yn cytuno y byddai darparu cyfrifiadau ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft yn ogystal ag amlinellu'r rhesymau dros wneud addasiadau o'r fath yn rhoi mwy o eglurder o ran sefyllfa ariannu Llywodraeth Cymru. Byddai gwneud hynny'n esbonio'n gliriach sut y mae rhagolygon refeniw sy'n gysylltiedig â threthi datganoledig yn effeithio ar y darlun cyllidebol cyffredinol ac yn ei gwneud yn llawer haws i randdeiliaid asesu effaith trethu yng nghyd-destun Cymru.

108. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth gan dystion a'r Gweinidog bod costau chwyddiant mewn perthynas â rhaglenni adeiladu a chyfalaf o fewn y Gyllideb Ddrafft yn arbennig o uchel a bod cyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 wedi'i chyfyngu'n arbennig.

109. Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd mewn cyllid cyfalaf i awdurdodau lleol drwy'r Gyllideb Ddrafft, mae'n amlwg y caiff llai ei ddyrannu na'r disgwyl oherwydd chwyddiant. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Gweinidog wedi gallu disgrifio yn gyffredinol sut y byddai angen cyflwyno prosiectau fesul cam neu eu cyflwyno yn fwy raddol, ond credwn fod angen mwy o eglurder ynghylch y prosiectau hynny yr effeithir arnynt. Hoffem hefyd wybod sut y bydd blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, fel y'u hamlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu, yn newid o ganlyniad i rhagolwg cyfyngedig ar gyfalaf.

110. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod sylwadau'r Gweinidog mewn perthynas â dyrannu cyfalaf trafodiadau ariannol ar gyfer 2023-24, mae'n siomedig na chafodd dyraniadau o'r fath eu cynnwys yn y Gyllideb Ddrafft unwaith eto eleni. Dywedodd

y Gweinidog wrth y Pwyllgor na fyddai dull hwyr Llywodraeth Cymru o ddyrannu cyfalaf trafodiadau ariannol yn 2022-23 yn creu cynsail. Felly, rydym yn galw ar y Gweinidog i roi eglurder ar allu Llywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth am gyfalaf trafodiadau ariannol ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn y Gyllideb Ddrafft cyn i'r dyraniadau terfynol gael eu gwneud.

111. Mae'r Pwyllgor yn credu bod ysgogiadau cyllidol Llywodraeth Cymru wedi cael eu llesteirio'n arbennig gan reolau'r Trysorlys ynghylch benthycu a'r terfynau a roddir ar faint o arian y gall ei dynnu i lawr o'i gronfeydd wrth gefn, ac mae'n nodi nad yw'r rhain wedi'u diweddarau ers i'r fframwaith cyllidol gael ei sefydlu yn 2016. Mae'r Pwyllgor wedi'i syfrdanu gan hyn ac yn gresynu nad yw'r sefyllfa hon wedi newid dros amser. Felly, rydym yn cefnogi'r Gweinidog wrth ymchwilio i newidiadau gyda Llywodraeth y DU a fyddai'n rhoi hwb i bwerau benthycu Llywodraeth Cymru ac yn helpu'r Gweinidog i fynd i'r afael â'r amgylchiadau economaidd sydd ohoni.

112. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth a ddaeth i law ynghylch y defnydd o gronfeydd wrth gefn gan awdurdodau lleol, yn enwedig y farn bod cronfeydd wrth gefn wedi'u rhannu'n anghyfartal ar draws Cymru a bod ansicrwydd yn bodoli ynghylch y defnydd priodol o gronfeydd wrth gefn o'r fath. Er bod y Pwyllgor yn cytuno â'r Gweinidog mai mater i'r awdurdodau lleol yw pennu eu cronfeydd wrth gefn, rydym yn cydymdeimlo ag awdurdodau lleol ar y pwynt hwn ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i fonitro lefelau cronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y lefelau yn rhai teg ac yn briodol.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith manwl i fodelu effaith amrywio cyfraddau treth incwm Cymru ym mhob band ar ymddygiad a hynny er mwyn sicrhau bod y broses benderfynu ynghylch pennu cyfraddau treth yn cael ei hategu gan dystiolaeth gadarn.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith sylfaenol i'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â datganoli pwerau i addasu cyfraddau bandiau a throthwyon treth incwm Cymru a'i bod yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd hwnnw cyn dadl flynyddol y Pwyllgor ar flaenoriaethau cyllidebol yn y Cyfarfod Llawn ym mis Gorffennaf.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad o'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â datganoli pwerau i weinyddu budd-daliadau yng Nghymru ac yn rhoi diweddariadau cyfnodol ar gynnydd i'r Pwyllgor.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfrifiadau manwl yn ymwneud â'r addasiad i'r grant bloc ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft, naill ai fel rhan o naratif y gyllideb neu trwy eu cynnwys yng nghyhoeddiad Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, sef Rhagolwg Trethi Cymreig, i ddangos sut y mae pob treth ddatganoledig yn effeithio ar y grant bloc a sefyllfa ariannu gyffredinol Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn rhoi rhagor o fanylion, mewn ymateb i'r adroddiad hwn ac ochr yn ochr â chyllidebau atodol, ar sut y bydd cyllidebau cyfyngedig a phwysau chwyddiant yn effeithio ar ei rhaglen gyfalaf, gan gynnwys:

- pa brosiectau fydd yn cael eu blaenoriaethu dros y flwyddyn ariannol sydd i ddod a pha rai fydd ar eu colled; a
- beth fydd effaith pwysau o'r fath ar gyflawni blaenoriaethau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol cyn i'r Gyllideb Derfynol gael ei gosod ac yn egluro pam nad oedd modd cynnwys y dyraniadau hyn yn y Gyllideb Ddrafft am yr ail flwyddyn yn olynol.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn galw ar Lywodraeth y DU i gynyddu'r terfynau cyffredinol a'r terfynau blynyddol o ran benthyca a chronfeydd wrth gefn, yn unol â chwyddiant o leiaf, ac y dylid adolygu'r terfynau hyn yn rheolaidd er mwyn peidio â lleihau eu gwerth mewn termau real dros amser.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro lefelau cronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn deg, yn cael eu defnyddio'n briodol ac ar lefelau digonol i ymdrin â'r pwysau a wynebir.

4. Gosodiad y Gyllideb

Blaenoriaethu

113. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer ailflaenoriaethu fel rhan o broses y gyllideb, gan arwain at ailffocysu gwerth £87.4 miliwn ar y meysydd â'r angen mwyaf. Roedd yr ymarfer ailflaenoriaethu yn seiliedig ar egwyddorion: "amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a'n huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol; parhau i ddarparu cymorth i'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfyngau sy'n ein hwynebu; cefnogi ein heconomi drwy gyfnod o ddirwasgiad".¹⁴⁴

114. Er ei fod yn cydnabod bod y cynlluniau buddsoddi cyfalaf a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft yn darparu llawer o fanylion am yr hyn sy'n cael ei gynllunio, dywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid y canlynol:

*"...there isn't that information on, 'Well, given the impact of higher inflation reducing the real value of this, what's been scaled back? What's been delayed? What's been shelved entirely?' At least, I couldn't see that in the documentation."*¹⁴⁵

115. Er bod angen ailflaenoriaethu cyllid mewn amgylchiadau anodd, rhybuddiodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid fod perygl y gallai gohirio cynlluniau i weithredu greu problem ar gyfer y dyfodol os bydd y sefyllfa ariannol yn parhau i fod yr un mor heriol.¹⁴⁶

116. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cydnabod "efallai y bydd effeithiau negyddol lle mae'r cyllid wedi'i ailflaenoriaethu", gyda manylion am y dewisiadau sydd wedi'u gwneud "yn cael eu hamlinellu fel rhan o ymatebion Gweinidogion unigol i'w priod bwyllgorau craffu'r Senedd".¹⁴⁷

117. Wrth fynd i'r afael ag effaith dadflaenoriaethu cyllid y flwyddyn nesaf, dywedodd y Gweinidog y byddai'n golygu naill ai cyflawni llai pan fydd cyllideb sefydlog, neu gyflawni pethau dros amserlen hwy pan fyddwn yn gallu gwneud hynny.¹⁴⁸

¹⁴⁴ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2023-24: Cyllideb mewn Cyfnod Anodd, Rhagfyr 2022, tudalennau 18 a 30.

¹⁴⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 58

¹⁴⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 86

¹⁴⁷ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2023-24: Cyllideb mewn Cyfnod Anodd, Rhagfyr 2022, tudalen 18

¹⁴⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 24

118. Er mwyn dangos goblygiadau'r ymarfer ailflaenoriaethu, defnyddiodd y Gweinidog y gostyngiad i'r BEL materion gwledig, economaidd a chynaliadwyedd fel enghraifft:

*"...that main expenditure group has a £63 million uplift through the multi-year settlement in 2022, but that's now been reduced by just under £9 million to £54 million. So, I know that Lesley Griffiths is now working through what that means for the specific things that she'll be able to support through that MEG, and I think that she gave evidence to the environment committee yesterday exploring in a bit more detail some of the difficult choices that she'll have to make in that space."*¹⁴⁹

119. Wrth ymateb i adborth ei bod yn anodd deall canlyniadau'r ymarfer ailflaenoriaethu o ddogfennaeth y Gyllideb Ddrafft, awgrymodd y Gweinidog fod y tablau BEL yn ddefnyddiol iawn o ran dangos lle y mae arian wedi'i symud i ffwrdd drwy'r broses o osod y gyllideb, yn ogystal â'r dystiolaeth ysgrifenedig a llafar ddilynol gan Weinidogion unigol. Parhaodd fel a ganlyn:

*"...one thing that we have done in recent years is pull together the committee evidence—the papers particularly—and publish them as a single document, so that there's a greater level of transparency. And I think that the third sector, particularly, has found those helpful, so that they're able to see all of the evidence together and then look for those kind of cross-Government implications of choices that have been made."*¹⁵⁰

120. Cyfeiriodd y Gweinidog at gyhoeddi gwybodaeth helaeth am y Gyllideb Ddrafft, a dywedodd fod Llywodraeth Cymru bob amser yn ceisio dod o hyd i ffyrdd newydd o wella prosesau'r gyllideb, gan ychwanegu'r canlynol:

*"...if there are different things that you want to see us try, even if it's just experimenting for one year, we're very open to that."*¹⁵¹

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

121. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICD)¹⁵² yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru "feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal

¹⁴⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 368

¹⁵⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 378

¹⁵¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraffau 385-386

¹⁵² [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd”.¹⁵³

122. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae'r Gyllideb Ddrafft wedi cael ei harwain gan “egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol” a'i bod wedi “ceisio cadw cydbwysedd rhwng cefnogi anghenion pobl y mae'r argyfwng costau byw presennol yn effeithio arnynt a chynaliadwyedd mwy hirdymor gwasanaethau cyhoeddus”.¹⁵⁴

123. Gan ymddangos gerbron y Pwyllgor am y tro olaf, myfyriodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf Cymru (y Comisiynydd) ar gysoni'r broses o osod y gyllideb â Deddf LICD yn ystod ei chyfnod yn y swydd. Cydnabu nifer o welliannau, megis datblygu diffiniad o wariant ataliol, gwariant ar ddatgarboneiddio, a chysylltiadau gwell rhwng proses y gyllideb, y naratif a'r amcanion llesiant. Fodd bynnag, pwysleisiodd fod angen rhagor o waith i nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio a chynnal dadansoddiad manwl ar draws yr amcanion llesiant.¹⁵⁵

124. Cydnabu'r Comisiynydd rai ymyriadau gwariant tymor hir gwirioneddol arwyddocaol sy'n cyd-fynd â'r amcanion llesiant, megis ym maes trafndiaeth ac incwm sylfaenol cyffredinol, ond ychwanegodd y canlynol:

“...we need to see that analysis across every aspect of the Government's spend. So, I suppose my report card would be essentially what I said in the section 20 report, which is, 'Good, a fair amount of progress being made, but we're still not doing exactly what we need to do'.”¹⁵⁶

125. Roedd y Comisiynydd yn teimlo bod angen dadansoddiad i alluogi Llywodraeth Cymru i weld lle y mae bylchau, ac i nodi'r hyn nad yw'n cael ei ariannu neu'n symud ymlaen yn ei hymrwymadau cyllideb.¹⁵⁷

126. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, nododd y Comisiynydd gynnydd 4.4 y cant ym maes datgarboneiddio, gan flaenoriaethu cyllid ar gyfer y rheilffyrdd drwy Trafnidiaeth Cymru. Fodd bynnag, rhybuddiodd yr “ymddengys mai dim ond

¹⁵³ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

¹⁵⁴ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2023-24: Cyllideb mewn Cyfnod Anodd. Rhagfyr 2022. tudalen.ii

¹⁵⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 151

¹⁵⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 195

¹⁵⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 194

ailddyrannu o linellau cyllideb eraill yw rhywfaint o hyn, yn fwyaf nodedig o gyllid ar gyfer natur ac adnoddau naturiol”.¹⁵⁸

127. Er ei bod yn croesawu blaenoriaethu cyllid ar gyfer yr argyfwng hinsawdd, pwysleisiodd tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiynydd fod cenedlaethau'r dyfodol hefyd yn wynebu argyfwng bioamrywiaeth ac “n[a] ddylai mynd i'r afael ag un ddod ar draul y llall”.¹⁵⁹

128. Dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor nad oedd ei swyddfa wedi cael amser i fapio'r gyllideb yn llawn yn erbyn cynllun Sero Net Cymru oherwydd yr amser cyfyngedig a oedd ar gael ers cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, gan ychwanegu'r canlynol:

“...that is made more difficult because the Welsh Government itself doesn't map or reference particularly extensively in the budget narrative the links back to the Net Zero Wales plan.”¹⁶⁰

129. Wrth ymateb i asesiad y Comisiynydd bod cyllid i gefnogi bioamrywiaeth wedi'i leihau, dywedodd swyddog y Gweinidog y canlynol:

“I don't think we would recognise that funding for biodiversity has been reduced; it certainly hasn't been increased in line with inflation and maybe that's what is meant by the point. And just going back to that general point, particularly on the capital side—that we just haven't had any additional funding available to allocate. So, as a result, yes, the real value of some of these programmes has fallen a bit. But as the Minister pointed out, these are three-year spending plans set last year and there is growth built into some of those programmes. So, for example, the biodiversity budget line is part of a wider action, which is to deliver nature, conservation and forestry policies and local environmental improvement and the budget for that—the capital budget for that—is rising from £30 million this year to £50 million next year. So, we haven't been able to increase those allocations from last time around, but they are on an upward path.”¹⁶¹

¹⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

¹⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

¹⁶⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 187

¹⁶¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 400

- 130.** Cydnabu'r Gweinidog fod rhanddeiliaid wedi dehongli cyllideb heb ei newid fel toriad yn y gyllideb, o gofio effeithiau chwyddiant, ond y gellid hefyd ystyried ei bod wedi'i gwarchod rhag yr ymarfer ailflaenoriaethu.¹⁶²
- 131.** Roedd y Comisiynydd yn credu bod gostyngiad termau real mewn cyllidebau cyfalaf, yn y bôn, yn golygu bod y Llywodraeth yn debygol o allu gwneud llai ac y gallai hyn gael effaith uniongyrchol o ran cynlluniau datgarboneiddio.¹⁶³
- 132.** Datganodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd y bydd "setliad refeniw tyn yn effeithio ar raglenni cyfalaf" a chododd bryderon am gostau ychwanegol sylweddol i gyflawni gofynion sero net 2030, yn enwedig ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif.¹⁶⁴ Tynnodd sylw bod pris ysgol newydd ym Mro Morgannwg wedi dyblu ar y cychwyn.¹⁶⁵
- 133.** Dangosodd swyddog y Gweinidog effaith pwysau chwyddiant ar fuddsoddiad cyfalaf mewn perthynas ag adeiladu ysgolion, gan nodi bod pwysau costau'n golygu y ceir 15 y cant yn llai o ysgol am yr arian na'r adeg hon y llynedd.¹⁶⁶
- 134.** O ran effaith chwyddiant ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni'r amcanion sero net a nodwyd ganddi y llynedd, dywedodd y Gweinidog ei bod yn ofynnol i'r holl ysgolion a adeiledir o'r newydd a phrosiectau ailwampio mawr gael eu cyflawni fel rhai carbon sero net ar waith, ond ychwanegodd y canlynol:

*"...inevitably, we will be doing fewer new builds as a result of inflation. So, in that sense, what we will achieve overall... will be less."*¹⁶⁷

Atal

- 135.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, nododd y Comisiynydd fod gwaith o ran atal "wedi bod ar y gweill ers sawl blwyddyn bellach heb fawr o gynnydd".¹⁶⁸ Cyn hynny, bu'r Comisiynydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddiffiniad o atal a gwariant ataliol.¹⁶⁹

¹⁶² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraffau 409 a 411

¹⁶³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 159

¹⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

¹⁶⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 210

¹⁶⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 30

¹⁶⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraffau 420 a 424

¹⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

¹⁶⁹ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Proses gyllidebol a gwariant ataliol

136. Dywedodd y Comisiynydd y gallai weld rhai ymyriadau ataliol da yn y Gyllideb Ddrafft, ond aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

“That’s the kind of general approach and application rather than really technically making sure that everyone understands the definitions of the different forms of prevention and is really analysing all of their budget lines against those definitions of prevention. I think that that really needs to be the next iteration for Government in terms of the budget improvement plan.”¹⁷⁰

137. Er i'r Comisiynydd deimlo bod rhywfaint o gynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran atal yn y flwyddyn cyn y pandemig, awgrymodd fod rhywfaint o'r cynnydd a'r capasiti yn y system efallai wedi cymryd cam yn ôl o ganlyniad i argyfwng COVID.¹⁷¹

138. Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft, yn datgan y canlynol:

“Oherwydd gwaith helaeth y Grŵp Cyngori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb ar yr Asesiad Effaith Integredig Strategol, nid oedd modd i ni fwrw ymlaen â'r gwaith atal roeddem wedi'i gynllunio. Bydd y gwaith atal yn cael ei flaenoriaethu yng nghynllun gwaith 2023 y Grŵp Cyngori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb.”¹⁷²

139. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod swyddogion yn mynd ati i ystyried sut i fwrw ymlaen â'r gwaith ar atal, gan weithio gyda'r Grŵp Cyngori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i ddeall sut y gallwn ymgorffori gwaith atal yn well yn ein cyllideb a'n prosesau treth.¹⁷³

Asesu effaith y gyllideb

140. Argymhellodd y Pwyllgor y canlynol yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2022-23:

“...y dylid ystyried sut y caiff gwybodaeth gyllidebol ei chyflwyno fel ei bod yn gysylltiedig ag allbynnau ac effeithiau, a hynny er mwyn helpu gwerthusiad Llywodraeth Cymru ei hun, yn ogystal

¹⁷⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 202

¹⁷¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 203

¹⁷² Llywodraeth Cymru, Cynllun Gwella'r Gyllideb, tudalen 7

¹⁷³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 392

*â gwella gallu'r cyhoedd a'r Senedd i ddwyn cynlluniau cyllidebol Llywodraeth Cymru i gyfrif.*¹⁷⁴

141. Wrth ymateb i'r argymhelliad hwn, cyfeiriodd y Gweinidog at ganlyniadau sy'n cael eu hadrodd drwy'r cerrig milltir cenedlaethol ar gyfer Cymru ac Adroddiadau Blynnyddol y Rhaglen Lywodraethu, ond dywedodd "drwy ein Cynllun Gwella'r Gyllideb i adeiladu ar y defnydd o werthuso a gwella tryloywder ein Penderfyniadau Gwario".¹⁷⁵

142. Trafododd Dadansoddi Cyllid Cymru a'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yr anawsterau o ran newid i ddull cyllidebu sy'n seiliedig ar ganlyniadau, gan awgrymu na fydd bob amser yn bosibl i'r sylfaen dystiolaeth fod ar gael cyn gwneud dewisiadau polisi.¹⁷⁶ Ychwanegodd Dadansoddi Cyllid Cymru y canlynol:

*"What that doesn't excuse is that you can still do performance evaluation; it just doesn't have to take place in the budget process, particularly for very large organisations and particularly at the moment when we have the impact of inflation, of pay awards, of energy-cost inflation—these things are going to massively change the inputs that we need to provide to get to the output, regardless of the performance data."*¹⁷⁷

Asesiad Effaith Integredig Strategol

143. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys Asesiad Effaith Integredig Strategol. Ei ddiben datganedig yw:

*"...adnabod tueddiadau allweddol, ac effeithiau strategol a chronnol ar lefel portffolio, ar draws amryw o feysydd, gan gynnwys rhoi sylw dyladwy ar draws y gofynion statudol."*¹⁷⁸

144. Dywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ei bod yn dda gweld rhywfaint o wybodaeth am werthusiadau effaith polisiâu penodol a'i fod yn teimlo bod yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn reddfodol yn cysylltu tystiolaeth a

¹⁷⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, Chwefror 2022, Argymhelliad 3

¹⁷⁵ Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2022-23

¹⁷⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraffau 64 a 73

¹⁷⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 64

¹⁷⁸ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2023-24: Cyllideb mewn Cyfnod Anodd, Rhagfyr 2022, tudalen 27

blaenoriaethau, er nad yw o reidrwydd yn golygu y bydd y polisiâu a'r cyllid a nodwyd yn mynd i'r afael â'r problemau hynny.¹⁷⁹

145. Nododd y Comisiynydd welliannau yng nghyflwyniad yr Asesiad Effaith Integredig Strategol o dueddiadau ym mhob adran a dyraniadau cyllid allweddol sy'n gysylltiedig â thueddiadau. Fodd bynnag, dywedodd fod cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd gan mai dim ond y tueddiadau yn yr ystadegau yw'r effeithiau strategol allweddol - nid yr effaith ydynt, gan ychwanegu'r canlynol:

*"...what the strategic impact assessment needs to do is really look at that in a cumulative way to say, 'Overall, is this helping or hindering us in getting towards our well-being objectives?' and, 'Should there be different things that we do and prioritise?'"*¹⁸⁰

146. Pwysleisiodd y Comisiynydd mai'r her fwyaf yw sicrhau adnoddau ar gyfer y gwaith hwn a'r ffaith bod staff yn ymateb i argyfyngau'n gyson.¹⁸¹

147. Cytunodd y Gweinidog fod y tîm wedi bod dan bwysau eithafol dros y blynyddoedd diwethaf, gan nodi paratoi ar gyfer Brexit a rheoli'r ymateb ariannol i'r pandemig a'r argyfwng costau byw. Ychwanegodd y canlynol:

*"...I think that any finance Minister would say that they need a bigger team and more resources, both human resources and definitely financial resources as well, but I think with what we've got, we do well."*¹⁸²

148. Croesawodd Chwarae Teg welliannau i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, a awgrymodd ei fod yn asesiad effaith gwell gan ei fod yn trafod effeithiau posibl y penderfyniadau y tynnir sylw atynt yn naratif y gyllideb. Fodd bynnag, galwodd am fwy o dystiolaeth yn y dyfodol bod dadansoddi ac asesu effaith yn llywio penderfyniadau ym mhob rhan o'r Llywodraeth.¹⁸³

149. Cyfeiriodd swyddog y Gweinidog at waith y Grŵp Cyngchori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb ar yr Asesiad Effaith Integredig Strategol, gan dynnu sylw at ei ddiddordeb mewn canolbwyntio ar lai o astudiaethau achos, ond ymchwilio'n

¹⁷⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraffau 72-73

¹⁸⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraffau 197 a 199

¹⁸¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 200

¹⁸² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2022, paragraff 390

¹⁸³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraffau 307-308

ddyfnach iddynt er mwyn edrych ar yr effaith lawnach a thynnu sylw at ostyngiad yn nifer yr astudiaethau achos a gynhwysir yn y Gyllideb Ddrafft hon.¹⁸⁴

150. Y llynedd, croesawodd y Pwyllgor y 'Dadansoddiad Dosbarthiadol o Wariant Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru 2022 i 2023' estynedig a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2022-23¹⁸⁵ ac argymhellodd ei fod "yn cael ei ddatblygu ymhellach yn y dyfodol er mwyn ei gysylltu â gwerthusiad polisi ar effeithiolrwydd gwariant".¹⁸⁶

151. Wrth ymateb i'r argymhelliad hwn, nododd y Gweinidog y byddai'r model dadansoddi dosbarthiadol presennol yn cael ei gynnal dros y tair blynedd nesaf ac yn ystyried ffynonellau data newydd a/neu well, gydag ystyriaeth barhaus yn cael ei rhoi i ddefnyddioldeb y model ac amllder cyhoeddi.¹⁸⁷

152. Mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft 2023-24, dywedodd y Gweinidog fod yr asesiad effaith ddosbarthiadol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft flaenorol 2022-23 yn parhau i fod yn ddilys o gofio nad yw pethau wedi newid yn hynny o beth ers y llynedd.¹⁸⁸

Cyllidebu ar sail rhyw

153. Y llynedd, galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i ehangu ei dull sensitif o gyllidebu ar sail rhyw y tu hwnt i brosiectau peilot arwahanol bach a'i ymgorffori mewn polisi cyffredinol a phenderfyniadau gwario ar draws portffolios.¹⁸⁹ Wrth ymateb, mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i weithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb a rhanddeiliaid ehangach i "ystyried pa gamau pellach y gallwn eu cymryd y tu hwnt i'n tair ardal beilot".¹⁹⁰

154. Mynegodd Chwarae Teg rwystredigaeth nad yw gwerthusiad llawn o gynllun peilot cychwynnol y Cyfrif Dysgu Personol ar gael i'r cyhoedd eto ond mae'n croesawu'r ffaith bod Cynllun Gwella'r Gyllideb yn dweud bod y gwersi a ddysgwyd yn llywio'r cynlluniau peilot newydd.¹⁹¹

¹⁸⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 118

¹⁸⁵ [Llywodraeth Cymru, Dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru 2022 i 2023](#)

¹⁸⁶ [Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, Chwefror 2022, Argymhelliad 4](#)

¹⁸⁷ [Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2022-23](#)

¹⁸⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 113

¹⁸⁹ [Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, Chwefror 2022, Argymhelliad 6](#)

¹⁹⁰ [Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2022-23](#)

¹⁹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 311

155. Pwysleisiodd Chwarae Teg fod Cynllun Gwella'r Gyllideb yn sôn am symud allan o gyfnod y cynllun peilot, yn ogystal â nodi'r manylion ynghylch cynlluniau peilot parhaus yn ymwneud â'r Warant i Bobl Ifanc a'r cynllun e-feiciau. Er ei bod yn nodi ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhywfaint o waith i asesu pwy sy'n elwa ar y cynlluniau hyn, awgrymodd fod angen i'r cyfnod nesaf ddefnyddio offer fel yr arfarniad polisi rhyw i lywio gwaith cyflawni, gan ychwanegu'r canlynol:

*"I wouldn't necessarily want to see us moving into yet another phase of pilots; I would want to see us saying, 'Right, how is this going to be implemented now across Government'—Welsh Government as a starting point, and then, ideally, out into the wider public sector as well."*¹⁹²

156. O ran datblygiadau, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn gweithio i wreiddio cyllidebu ar sail rhyw yn ei phrosesau, gan gyfeirio at weithio drwy'r rhwydwaith llywodraethau llesiant a dysgu o wledydd sydd wedi gwneud llawer mwy o waith o ran cyllidebu ar sail rhyw.¹⁹³

Effaith carbon

157. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn galw am ddealltwriaeth ddyfnach o effaith carbon penderfyniadau gwario. Y llynedd, argymhellodd y canlynol:

*"... bod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i ddangos sut mae ei chyllidebau carbon a chyllid yn cyd-fynd â chyllidebau'r dyfodol. Rhaid i'r Gyllideb Ddrafft y flwyddyn nesaf fynd ymhellach i ddangos effaith carbon y gyllideb."*¹⁹⁴

158. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ei dull "wrth i'r sylfaen dystiolaeth ynghylch lle gallwn fuddsoddi orau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ddatblygu ymhellach" a bydd yn "parhau i adeiladu ar y modelau sy'n sail i'r asesiad carbon o'n penderfyniadau gwario".¹⁹⁵

159. Dywedodd y Comisiynydd ei bod yn gwbl hanfodol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi asesiad o effaith carbon ei chyllideb, gan ychwanegu'r canlynol:

¹⁹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 312

¹⁹³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 113

¹⁹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, Chwefror 2022, Argymhelliad 37

¹⁹⁵ Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2022-23

“I’ve been saying that for at least the last four, if not many more, years. We’re still not seeing that full assessment... I think the Government recognises that it needs to do it, but it’s constantly in a kind of crisis mode where they don’t have the capacity, time or resources, quite frankly, to be able to do some of the work that is absolutely necessary, and that’s a problem.”¹⁹⁶

160. Pan gafodd ei holi am effaith carbon y Gyllideb Ddrafft, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod yn anodd cynnal asesiad effaith carbon o’r gyllideb gyfan. Aeth y Gweinidog ymlaen i amlinellu gwaith a wnaed yn flaenorol ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2022-23, gan edrych yn arbennig ar lechyd a Gofal Cymdeithasol, yr awgrymodd ei fod yn ddilys o hyd.¹⁹⁷

161. O ran bod yn fodlon bod yr holl gamau gweithredu newydd a nodwyd yn y Gyllideb Ddrafft yn cyfrannu i nodau sero net Llywodraeth Cymru, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

“...I think that the work we did to do that carbon work still remains valid in the sense that we didn’t have any additional capital to allocate this time and we haven’t changed our capital plans beyond perhaps not delivering as much as we previously would have because of inflation. I suppose that will have a carbon impact in itself—a negative one.”¹⁹⁸

Barn y Pwyllgor

162. Yn naratif y Gyllideb Ddrafft, mae’r Gweinidog yn dweud bod y gyllideb hon yn “un o’r rhai anoddaf yr ydym erioed wedi’i gwneud”, bod sgysiau am ailflaenoriaethu cyllid yn y cynlluniau presennol i’w “symud i feysydd lle y gall gael yr effaith fwyaf” ac mae’n sôn am wynebu “dewisiadau anodd” yn ystod proses y gyllideb.¹⁹⁹ Mae gallu nodi canlyniadau penderfyniadau cyllido’n ddiben sylfaenol i broses y gyllideb. Mae hyn yn bwysicach fyth eleni o gofio’r datganiadau ynghylch pa mor anodd y bu’r penderfyniadau hynny. Yn anffodus, mae’r Pwyllgor wedi cael trafferth gwirio effeithiau negyddol y gyllideb hon.

163. Am y rheswm hwn, credwn fod yn rhaid i naratif y Gyllideb Ddrafft ddarparu asesiad integredig o effeithiau penderfyniadau gwario ar draws portffolios. Pan fo’r gyllideb yn cynnwys ailflaenoriaethu, fel sy’n digwydd yn 2023-24, mae’n rhaid

¹⁹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 189

¹⁹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 133

¹⁹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2022, paragraff 397

¹⁹⁹ Llywodraeth Cymru. Cyllideb Ddrafft 2023-24: Cyllideb mewn Cyfnod Anodd. Rhagfyr 2022. Rhagair

nodi'r canlyniadau hefyd. Hyd yn oed lle na fu ailflaenoriaethu, mae effaith chwyddiant yn golygu na fydd cyllidebau'n mynd cyn belled. Nid yw'n glir o ddogfennaeth y gyllideb sut y mae canlyniadau wedi newid oherwydd pwysau chwyddiant. O gofio effaith sylweddol chwyddiant eleni, ni ddylid cyfeirio at rewi cyllidebau adrannol, neu ddarparu cynnydd islaw chwyddiant, fel mesurau diogelu. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy gonest yn y ffordd y mae'n cyflwyno ei phenderfyniadau yn y Gyllideb Ddrafft.

164. Mae'r Pwyllgor yn credu bod newid parhaus mewn buddsoddiad tuag at weithgareddau ataliol yn hanfodol i gynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus yn y tymor hir. Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd y Grŵp Cyngori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb yn blaenoriaethu gwaith ar atal yn ei gynllun gwaith ar gyfer 2023. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod dogfennaeth y gyllideb yn dal i fethu dangos sut y mae gwarant yn newid o fod yn wariant aciwt i fod yn wariant atal trydyddol, eilaidd a sylfaenol. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac i gydnabod natur ataliol llawer o wasanaethau awdurdodau lleol anstatudol.

165. Nodwn fod barn y Gweinidog bod y gwaith a wnaed i asesu'r effaith carbon ar gyfer cyllideb 2022-23 yn dal i fod yn ddilys gan nad oes cyfalaf ychwanegol wedi'i ddyrannu yn y Gyllideb Ddrafft. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi diweddarau ei hasesiad blaenorol nac ehangu arno drwy'r Gyllideb Ddrafft hon. O gofio bod y Gweinidog wedi cynnal ymarfer ailflaenoriaethu fel rhan o gylch y gyllideb hon, byddai'r Pwyllgor wedi hoffi gweld sut roedd ystyriaethau sero net yn llywio'r dewisiadau anodd y bu'n rhaid eu gwneud. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi tystiolaeth gan dystion, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, nad yw cyfalaf yn mynd mor bell oherwydd chwyddiant, ond nid yw'n glir sut y mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau. Gwnaethom annog y Gweinidog i fynd ymhellach i ddangos effaith carbon y gyllideb yn ein hadroddiad y llynedd ac mae'n destun gofid na roddwyd sylw i farn o'r fath wrth lunio'r Gyllideb Ddrafft hon, yn enwedig o gofio ymrwymïadau sero net a datganiad argyfwng hinsawdd Llywodraeth Cymru ei hun ym mis Ebrill 2019.

166. Yn yr un modd, dywedodd y Gweinidog wrthym fod Dadansoddiad Dosbarthiadol o Wariant Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru y llynedd hefyd yn parhau i fod yn ddilys. Fodd bynnag, gan fod y dadansoddiad hwnnw'n cyfrif am tua 70 y cant yn unig o gyllid adnoddau datganoledig, yn ogystal â chael ei ddiweddarau, credwn fod cyfle i ystyried ei estyn ymhellach eleni.

167. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y wybodaeth helaeth a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ac yn nodi bod y Gweinidog yn meddwl yn feirniadol am hyd a chynnwys y dogfennau a ddarparwyd. Prif bryder y Pwyllgor yw bod y

wybodaeth a roddwyd o ansawdd uchel, yn esbonio pam a sut y gwnaed penderfyniadau ac yn dangos tystiolaeth o effeithiau cadarnhaol a negyddol y penderfyniadau hynny.

168. Mae'r Pwyllgor yn falch bod Llywodraeth Cymru yn datblygu ei dull sensitif o gyllidebu ar sail rhyw, ond mae'n siomedig bod hyn yn parhau i fod yn gyfyngedig i brosiectau peilot arwahanol bach, yn hytrach na chael ei brif ffrydio mewn polisi cyffredinol a phenderfyniadau gwario ar draws portffolios. Er bod Cynllun Gwella'r Gyllideb yn sôn am newid tuag at brif ffrydio dull cyllidebu ar sail rhyw, mae strategaeth ac amserlenni Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud hynny'n parhau i fod yn rhwystredig o amwys. Felly, rydym yn llwyr gefnogi'r galwadau a wnaed gan Chwarae Teg ynghylch yr angen i symud i ffwrdd o gynlluniau peilot tuag at arfarniad polisi rhyw cyffredinol i ddeall effaith penderfyniadau cyllidebol ar fenywod, fel ei fod yn llywio penderfyniadau ar draws Llywodraeth Cymru.

169. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gwaith a wnaed gan y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i ddatblygu'r Asesiad Effaith Integredig Strategol ac mae'n cydnabod yr adborth cadarnhaol gan randdeiliaid ynghylch y cysylltiadau rhwng dyraniadau a thueddiadau cyllid allweddol. Serch hynny, mae diffyg tystiolaeth o hyd yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol o ran sut y mae Llywodraeth Cymru wedi asesu'r effaith gronnus penderfyniadau gwario, yn gadarnhaol ac yn negyddol. Rydym wedi bod yn galw am welliannau yn hyn o beth ers nifer o flynyddoedd ac mae ein profiad yn craffu ar y gyllideb hon yn dangos bod yn rhaid blaenoriaethu gwella tryloywder a gwerthusiad Llywodraeth Cymru o benderfyniadau gwario ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf. Er bod sefydlu'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb a'i holl arbenigedd yn cael ei groesawu'n fawr iawn, nid yw'n glir i'r Pwyllgor pa welliannau diriaethol y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r grŵp eu cyflawni na'r amserlenni i'w cyflawni.

170. Mae naratif y Gyllideb Ddrafft yn cyfeirio at ragor o fanylion am y dewisiadau a wnaed yn y gyllideb "yn cael eu hamlinellu fel rhan o ymatebion Gweinidogion unigol i'w priod bwyllgorau craffu'r Senedd". Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth hon, ni fu modd i ni archwilio'r dystiolaeth hon, gan na chafodd yr ymatebion eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft a dim ond yn ystod trafodaeth fanwl o gynigion gan bwyllgorau'r Senedd ym mis Ionawr roeddent ar gael. Mae mabwysiadu'r dull hwn yn lleihau'r amser craffu sydd ar gael ac mae'n arbennig o rwystredig pan fo'r amserlen honno eisoes yn gywasgedig. Ymhellach, nid yw gohirio gwybodaeth allweddol adeg cyhoeddi'r gyllideb, a chyhoeddi papurau tystiolaeth gweinidogol wedyn mewn un ddogfen pan fydd gwaith craffu wedi digwydd, yn dangos tryloywder.

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud newidiadau i'r ffordd y mae'n cyflwyno gwybodaeth mewn dogfennaeth a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft fel ei bod yn darparu:

- asesiad o effaith penderfyniadau gwariant ar draws portffolios, gan gynnwys effaith ymarferion ailflaenoriaethu ac eglurder ar effaith penderfyniadau mewn portffolios mewn termau real;
- asesiad o sut y mae penderfyniadau gwario Llywodraeth Cymru yn cefnogi mesurau ataliol (neu nad ydynt yn gwneud hynny).

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod lefel y wybodaeth a ddarperir yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 yn gyfwerth â'r wybodaeth a roddir yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23.

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei chynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhyw i lywio a datblygu arfarniad polisi rhyw cynhwysfawr o holl benderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion am flaenraglen waith y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, gan gynnwys yr allbynnau diriaethol y bydd ei waith yn eu cyflawni ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024-25.

Casgliad 1. Rydym yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i ystyried ffyrdd y gellir gwella dogfennaeth y gyllideb. Er ein bod wedi adlewyrchu ein barn uchod, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd ar eu profiadau o graffu ar ddogfennaeth y gyllideb eleni a ffyrdd y gellir gwneud gwelliannau.

5. Costau byw: mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau

Cefndir

171. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailflaenoriaethu ei chyllid ar gyfer 2023-24 i fynd i'r afael â thair blaenoriaeth, ac un ohonynt yw parhau "i ddarparu cymorth i'r rhai y mae'r argyfyngau a wynebwn yn effeithio arnynt fwyaf".²⁰⁰ Fel y nodwyd ym Mhennod 2 o'r adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn wynebu nifer o heriau yn 2023-24, gyda'r DU yn debygol o wynebu dirwasgiad y disgwylir iddo barhau dros flwyddyn.

172. Ym mis Hydref 2022, adroddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod cyfran yr oedolion sy'n ei chael hi'n anodd fforddio biliau ynni, rhent neu daliadau morgais wedi cynyddu drwy 2022.²⁰¹ Ar gyfartaledd, y flwyddyn nesaf bydd cartrefi yn gweld bod incwm real ar ôl treth yn gostwng tua £800 y flwyddyn, yn ôl y Resolution Foundation.²⁰²

173. Dywedodd Sefydliad Bevan nad oes gan 45 y cant o gartrefi Cymru fyth ddigon o arian ar gyfer dim byd heblaw'r hanfodion sylfaenol. Dywedodd fod hyn yn ddirywiad sylweddol ar y sefyllfa ym mis Mai 2021 pan oedd y ffigwr yn 33 y cant.²⁰³

174. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan nifer o randdeiliaid ynglŷn â'r effaith y mae'r cynnydd mewn costau byw yn ei chael ar y rhai mwyaf agored i niwed.

175. Pwysleisiodd Dadansoddi Cyllid Cymru fod y cyfuniad o chwyddiant ynni a defnyddwyr yn golygu bod y rhagolygon i aelwydydd yn eithaf llwm. Awgrymodd erbyn 2027 y gallai incwm gwario real yng Nghymru fod tua £10,000 yn is na phe bai'r duedd cyn yr argyfwng ariannol wedi'i chynnal.²⁰⁴

²⁰⁰ Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24: Cyllideb mewn Cyfnod Caled, Rhagfyr 2022, tudalen 33

²⁰¹ Swyddfa Ystadegau Gwladol: Effaith costau byw uwch ar oedolion ledled Prydain Fawr: Mehefin i Fedi 2022

²⁰² Resolution Foundation: The art of expectations management

²⁰³ Bevan Foundation: A snapshot of poverty in summer 2022, July 2022

²⁰⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 36

Siarter Budd-daliadau Cymru

176. Tynnodd Sefydliad Bevan sylw at y gwaith yr oedd yn ei wneud fel rhan o grŵp rhanddeiliaid i helpu Llywodraeth Cymru i ddrafftio Siarter Budd-daliadau. Dywedodd:

“Even before the pandemic, we had identified the huge number of different and extremely important devolved grants and allowances that are administered by Welsh Government and local authorities, or third parties on the Welsh Government’s behalf, and their value was overlooked, I think. They’ve really come to the fore as a result of the pandemic, and while there has been very widespread acceptance of the need to join them up and to streamline them, I think the progress in actually making it happen has been much slower than we would like to see. And that’s all the more important now we’ve had lots more new schemes come into play as a result of responses to the cost of living.”²⁰⁵

177. Yn ogystal, awgrymodd Sefydliad Bevan fod cynllun budd-daliadau unedig nid yn unig yn ymwneud ag integreiddio a symleiddio'r weinyddiaeth, mae hefyd yn gyfle i edrych o'r newydd ar werth rhai o'r cynlluniau hynny ac edrych ar rai o ran cymhwysedd. Tynnodd sylw at y ffaith bod gweithwyr rhan-amser a'r rhai sydd yn hunangyflogedig ac ar incwm isel yn enghreifftiau o grwpiau naill ai nad ydynt yn gwneud cais neu nad ydynt yn gymwys i gael Credyd Cymhwysol.²⁰⁶

178. Dywedodd Chwarae Teg wrth y Pwyllgor mai Credyd Cynhwysol yw'r budd-daliad sy'n agor y drws ar gyfer yr holl gymorth arall y mae gennych hawl iddo.²⁰⁷ Dywedodd fod tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu:

“...people perhaps who look at the length of the application they need to go through for something like universal credit and might only get a very small amount through universal credit, but as a result of them not going through, they're not getting all of the other support that's on offer at the moment, which, again, increases that risk of falling into debt or relying on other sources of financial support.”²⁰⁸

²⁰⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 235

²⁰⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 247

²⁰⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 245

²⁰⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 245

179. Dywedodd Cyngor ar Bopeth Cymru fod llawer o'i gleientiaid yn dod i wynebu'r holl systemau gwahanol, a gall hynny fod yn frwydr ar y gorau, gan ychwanegu:

*"It's confusing enough for those who work in it day in and day out, and I think, if we can learn anything from the cost-of-living crisis, it's that simplicity is our best friend."*²⁰⁹

180. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi ymrwymo'n llawn i gael un pwynt cyswllt i bobl gael mynediad at system fudd-daliadau Cymreig a bod ei swyddogion wrthi'n gweithio gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i wneud gwaith archwiliadol i ganfod atebion, mewn gwirionedd, i symleiddio'r broses honno, fel bod gennym system lawer mwy cydlynol ac unedig.²¹⁰

181. Cydnabu'r Gweinidog fod Sefydliad Bevan hefyd yn arwain ar waith ymchwil ar wahân i'r hyn sy'n rhwystro pobl rhag manteisio ar y system fudd-daliadau Cymreig. Dywedodd:

*"when we introduce schemes, we find that take-up, sometimes, isn't as good as we would have wanted, so we need to understand what's behind all of that as well."*²¹¹

182. Dywedodd y Gweinidog fod Siarter Budd-daliadau Cymru yn elfen ganolog o hynny, a bydd ein system fudd-daliadau yn cael ei hadeiladu ar sail egwyddorion y siarter honno. Cadarnhaodd fod y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol 'yn gwneud rhywfaint o waith ar hynny, wrth inni siarad, o ran y grŵp pwyslais ar incwm a'r hyn y gallant ei gynnig i'r sgwrs honno hefyd. Felly yn sicr, mae'n ddarn o waith parhaus'.²¹²

183. Dywedodd y Gweinidog ei bod hefyd yn trafod gyda llywodraeth leol ynghylch sut y gallai mynediad at ffynonellau cyllid penodol fod yn fwy syml a hygyrch. Cyfeiriodd at y cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf fel enghraifft lle roedd rhai awdurdodau lleol yn gallu talu hynny bron yn awtomatig, yn syml iawn, tra bod unigolion mewn ardaloedd eraill yn gorfod chwilio am y cyllid hwnnw a chael mynediad ato.²¹³

²⁰⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 239

²¹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 429

²¹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 429

²¹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 430

²¹³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 431

Anghydraddoldeb ariannol rhwng y rhywiau

184. Croesawodd Chwarae Teg benderfyniad Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar gefnogi gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen, o gofio bod menywod yn fwy tebygol o ddefnyddio a chael eu cyflogi mewn gwasanaethau cyhoeddus. At hynny, dywedodd ei bod yn amlwg fod yr ymrwymiad parhaus ynghylch y cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yn cael effaith gadarnhaol ar rywedd.²¹⁴

185. Fodd bynnag, roedd Chwarae Teg yn teimlo bod cwpl o fylchau sy'n peri ychydig o bryder gan gynnwys y diffyg trafodaeth am ofal plant, sy'n rhoi pwysau ariannol enfawr ar aelwydydd, yn enwedig ar incwm menywod, gan nodi bod y gost ar gyfer gofal plant bron yn gyfwerth â 60 y cant o gyflog cyfartalog menywod.²¹⁵

186. Er bod Chwarae Teg wedi croesawu'r ddarpariaeth o 30 awr o ofal plant am ddim, roedd yn poeni fod y:

"...budget looks to be flat for that this year, and if providers are under inflationary pressures, are they then going to have to pass costs on to other parents, who perhaps aren't accessing the offer, or through other ways?"²¹⁶

187. Cafodd ehangu'r ddarpariaeth i blant dwy oed ei groesawu hefyd gan Chwarae Teg, ond roedd yn teimlo ei fod yn ehangiad hynod gymedrol o ystyried bod y ddarpariaeth am ddim sy'n cael ei hehangu yn:

"...fewer than 20 hours a week. That's often spread across days of the week. That's not necessarily the most helpful model of childcare provision for people who are trying to balance work and caring responsibilities."²¹⁷

188. O ganlyniad, mae Chwarae Teg yn poeni efallai bod menywod yn gorfod penderfynu a yw'n fforddiadwy mewn gwirionedd i fynd allan i weithi ac nid yw'n meddwl bod honno'n sefyllfa y dylem fod ynnddi yn 2023.²¹⁸ Trafodir cyllidebu ar sail rhyw ymhellach ym Mhennod 4.

²¹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 227

²¹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 228

²¹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 282

²¹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 282

²¹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 282

189. Roedd Chwarae Teg o'r farn nad oedd cost anghydraddoldebau o reidrwydd yn cael eu trafod mewn digon o fanylder yn yr hyn rydym wedi'i weld ynghylch y gyllideb. Ychwanegodd:

"...we talk about the disproportionate impact of the cost-of-living crisis on women; it's the same for a lot of other protected characteristic groups. That's not an inevitability—that's a direct result of the fact that we have inequality in existence..."²¹⁹

190. Mewn ymateb i'r cwestiwn a yw'r Gyllideb Ddrafft yn blaenoriaethu polisïau sy'n cefnogi grwpiau gwarchodedig ac yn ddigonol er mwyn atal aelwydydd ac unigolion rhag mynd i argyfwng, dywedodd y Gweinidog:

"I think that you can see through the strategic impact assessment that we've done our best to understand the implications of our budget. One of the things that we're very mindful of in terms of our core reasons for doing the budget is to put our money where it's needed most.... Some of the additional funding that we've provided in this particular budget has been very much focused on public services. We know that people with protected characteristics are much more likely to rely on public services, so that in itself is a progressive and appropriate thing to do."²²⁰

191. Trafodir yr Asesiadau Effaith Integredig Strategol ym Mhennod 4.

Lwfans Cynhaliaeth Addysg

192. Tynnodd Sefydliad Bevan sylw at bryderon ynghylch rhewi'r lwfans a'r trothwyon cymhwysedd ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg²²¹ Dywedodd:

"And when we talked to young people before the pandemic, they were already telling us about learners who were quitting because they couldn't afford to carry on on £30 a week; they were getting jobs and helping their parents that way. We're now hearing stories about learners who are handing over the cash to their families to help pay the gas and electricity bills, and are going without meals or going without equipment."²²²

²¹⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 302

²²⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 450

²²¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 284

²²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 286

193. O ran a ddylai'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg gael ei fynegeo, dywedodd Sefydliad Bevan:

*"At a time when many people have urged the UK Government to uplift social security benefits by the rate of inflation—and they did for most of them—I think we have a strong expectation that the Welsh Government should similarly ensure its own grants and allowances keep the same rate. So, absolutely, yes, it should be indexed, and if it can't be done, at least this financial year, make a one-off payment: give all EMA current students £50."*²²³

194. O ran y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, dywedodd swyddog y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn cynnal y gyllideb bresennol o £17.4 miliwn y flwyddyn i ddarparu £30 yr wythnos o gymorth. Esboniodd fod y modelu yn awgrymu y byddai angen tua £8.2 miliwn y flwyddyn i gynyddu'r taliad o £30 i £45 ar gyfer y garfan bresennol, a £15 miliwn y flwyddyn ar ben hynny i gynyddu trothwyon incwm aelwydydd yn unol â'r rhai a argymhellwyd gan Sefydliad Bevan. Dywedodd y swyddog nad yw'r gost ychwanegol y byddai ei angen o bron £25 miliwn yn swm bach. Er hynny, roedd yn cydnabod gwerth y lwfans hwnnw i unigolion.²²⁴

Y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf

195. Cadarnhaodd y Gweinidog na fydd y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf ar gael yn 2023-24, gan ddweud wrth y Pwyllgor fod y cynllun yn costio £90 miliwn a bod hwnnw'n fuddsoddiad mawr iawn, iawn, ac nid yw'n rhywbeth y bydd yn gallu fforddio ei wneud y flwyddyn nesaf.²²⁵

196. Dywedodd Dadansoddi Cyllid Cymru bod nifer sylweddol o bobl yn manteisio ar y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf a bod tua 166,000 o'r cyfanswm o 220,000 o aelwydydd cymwys wedi manteisio ar y cynllun. Felly mae hynny'n gyfradd o 76 y cant sy'n manteisio.²²⁶

197. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol, er bod prisiau ynni'n anwadal oherwydd natur anrhagweladwy effaith a hirhoedledd y rhyfel yn Wcráin, mae prisiau wedi gostwng yn sylweddol dros y misoedd

²²³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 284

²²⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 444

²²⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 50

²²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 37

diwethaf.²²⁷ Awgrymodd amcangyfrifon gan Investec ar 12 Ionawr 2023 y gallai'r cap ar brisiau ostwng i £2,478 ym mis Gorffennaf 2023.²²⁸

198. Dywedodd Dadansoddi Cyllid Cymru, er bod rhywfaint o newyddion gwell wedi bod ynglŷn â phrisiau ynni yn ystod y misoedd diwethaf o ran y pris cyfanwerthu yn gostwng ychydig, ychwanegodd:

*"but we're still expecting an increase in the energy price cap, potentially not as far as the £3,000 cap that's coming in in April—perhaps down to about £2,800 in the second half of this year, again due to those falling wholesale costs. But that's still three times as much than the average household will be paying for energy than they did just three years ago. So, even though there's better news on the front on wholesale costs, this is still an enormous impact on a household's budget."*²²⁹

199. Dywedodd Cyngor ar Bopeth Cymru, er y gallai'r Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf ddod i ben, bydd yr angen yn parhau i fod yno, bydd yr angen yn fwy y gaeaf nesaf, a bydd y bwch yn tyfu'n ehangach²³⁰. Parhaodd i dynnu sylw at y ffaith nad yw'r Gyllideb Ddrafft hon yn gwneud buddsoddiad sylweddol mewn effeithlonrwydd ynni i wrthbwysu effaith diwedd y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf.²³¹ Ychwanegodd:

*"We need to break this cycle of, every winter, needing to give people emergency payments or an emergency stopgap. We're not there yet. I see the ambition in the budget narrative, but I don't see how we get there in this budget."*²³²

200. Roedd Sefydliad Bevan yn synnu nad oes mwy o ffocws wedi bod ar yr angen i uwchraddio a symud ymlaen ar gyflymdra sylweddol â'r rhaglen insiwleiddio cartrefi.²³³

201. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pa gymorth y byddai Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi ledled Cymru. Atebodd y Gweinidog:

²²⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 346

²²⁸ [Energy Live News: Energy bills could fall faster than previously expected](#)

²²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 34

²³⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 225

²³¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 261

²³² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 263

²³³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 266

“You’ll remember that we committed to several interventions, allocating over £190 million to eliminate fuel poverty as part of the spending review that was conducted last year. In that, we announced an increase in the Warm Homes programme budget of £5 million, to £35 million in this financial year. The total budget for the three-year spending period up to 2024-25 is £100 million. That’s quite a significant intervention in that space. And £70 million is also being provided per year for the optimised retrofit programme to prioritise investment in social housing decarbonisation. That’s in 2023-24 and 2024-25 through the Minister for Climate Change’s portfolio. Obviously, you’ll be aware that, certainly in this financial year, we’ve had the winter fuel support scheme, which was very successful in being provided to around 290,000 properties.”²³⁴

Barn y Pwyllgor

202. Mae’r Pwyllgor yn nodi barn Llywodraeth Cymru mai un o’i thair blaenoriaeth yw helpu’r rhai y mae’r argyfyngau costau byw yn effeithio arnynt fwyaf, fodd bynnag, rydym yn credu y gellid gwneud mwy i helpu’r rhai mwyaf agored i niwed. Yn ystod y gwaith craffu y llynedd ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23, gwnaethom dynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod budd-daliadau Cymreig yn cael eu symleiddio a’u cydgrynhoi. Yn ogystal, gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i wella hygyrchedd ac ymwybyddiaeth ynghylch ei grantiau a’i systemau budd-daliadau, a gwnaethom eirioli dros ddull ‘dim drws anghywir’. Felly, mae’n siomedig clywed bod y gwaith ar sefydlu Siarter Budd-daliadau Cymru wedi bod yn araf.

203. Mae’r Pwyllgor hefyd yn cefnogi barn Sefydliad Bevan nad yw cynllun budd-daliadau unedig yn ymwneud ag integreiddio a symleiddio’r broses weinyddu yn unig, ac y dylai hefyd fod yn gyfle i ystyried gwerth a’r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynlluniau. Mae’n hanfodol sicrhau bod cynllun cymorth unedig ar gael i Gymru, er mwyn atal y rhai mwyaf anghenus rhag colli allan ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

204. Mae’r Pwyllgor yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar gefnogi gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a’r effaith gadarnhaol y bydd hyn yn ei chael ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau, o ystyried bod menywod yn fwy tebygol o ddefnyddio a/neu gael eu cyflogi mewn gwasanaethau cyhoeddus. Er hynny, rydym yn credu y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i hyrwyddo

²³⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 441

cydraddoldeb rhwng y rhywiau drwy ei pholisïau costau byw a'r galwadau i ddarparu mwy o gymorth gofal plant, o ystyried y pwysau ariannol sylweddol ar aelwydydd, yn enwedig incwm menywod. Mae'n frawychus clywed bod y gost ar gyfer gofal plant bron yn gyfwerth â 60 y cant o gyflog cyfartalog menywod a chlywsom dystiolaeth sy'n awgrymu bod menywod yn cael eu gorfodi i benderfynu a yw'n fforddiadwy i fynd allan i weithio ai peidio. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi ehangu'r ddarpariaeth gofal plant i blant dwy oed drwy Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, codwyd materion gan dystion yn ymwneud â'r cynllun a ddywedodd fod y ddarpariaeth o 20 awr yr wythnos yn gymedrol, wedi'i gwasgaru ar draws yr wythnos, ac nid o reidrwydd y model mwyaf defnyddiol i gefnogi pobl sy'n ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau gwaith a gofalu.

205. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf bod y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn gynllun cymorth Cymreig allweddol ar gyfer dysgwyr ifanc, ac mae'n siomedig bod y trothwyon cymhwysedd a'r lwfans wedi'u rhewi yn y Gyllideb Ddrafft hon. Yn yr hinsawdd sydd ohoni mae'r angen i fynd i'r afael â chymorth i'r dysgwyr mwyaf agored i niwed yn hollbwysig. Felly, mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai'r diffyg codiad yn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg arwain at ddysgwyr yn gadael addysg i chwilio am waith, a hynny'n aml er mwyn helpu eu teuluoedd drwy'r argyfwng costau byw hwn.

206. Nid yw swm y Lwfans Cynhaliaeth Addysg o £30 wedi newid ers canol y 2000au a'r tro diwethaf y newidiwyd y trothwyon cymhwysedd oedd tua 2012. Mae'r Pwyllgor, felly, o'r farn ei bod yn hen bryd cynnal adolygiad o drothwyon y Lwfans Cynhaliaeth Addysg ac y dylid gwneud hynny ar fyrder, gan godi'r gyfradd bresennol.

207. Mae'r Pwyllgor yn siomedig na fydd y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf ar gael yn 2023-24, yn enwedig o ystyried y niferoedd uchel o bobl sydd wedi manteisio arno yn 2022-23. Er bod rhywfaint o newyddion cadarnhaol wedi bod ynglŷn â chost cyfanwerthol ynni sydd wedi gostwng, mae prisiau'n parhau i fod yn anwadal oherwydd y rhyfel parhaus yn Wcráin ac rydym wedi cael gwybod bod costau ynni'n debygol o fod bron i dair gwaith cymaint ag yr oedden nhw dair blynedd yn ôl. Fel Pwyllgor nid ydym yn gweld fawr ddim yn y Gyllideb Ddrafft hon i atal aelwydydd rhag disgyn i galedi ariannol.

208. Yn ogystal, er bod y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf wedi dod i ben, nid ydym wedi clywed llawer am gynnydd y rhaglen Cartrefi Clyd a chynllun Nyth. Clywsom am bwysigrwydd buddsoddi mewn mentrau effeithlonrwydd ynni fel dull o ddileu'r angen am Gynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf a fyddai hefyd yn gweithredu fel mesur ataliol er mwyn sicrhau nad yw aelwydydd yn disgyn i dlodi

tanwydd. Felly, ein barn yw y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy yn y maes hwn i helpu pobl sy'n agored i niwed i ddelio â chostau ynni cynyddol.

Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu symleiddio cynlluniau cymorth ariannol, o dan Siarter Fudd-daliadau Cymru arfaethedig, ac yn defnyddio dull carlam i ddatblygu proses ymgeisio unedig ar gyfer grantiau datganoledig a chynlluniau cymorth ariannol.

Argymhelliad 18. Yng ngoleuni'r cynnydd mewn costau byw, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r cynlluniau cymorth ariannol presennol i sicrhau bod y trothwyon cymhwysra yn addas i'r diben ac nad ydynt yn eithrio pobl agored i niwed sydd ar ymylon cynlluniau cymorth.

Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau brys i fynd i'r afael â'r effaith anghyfartal ar rywedd yn sgil costau byw cynyddol, ac yn enwedig, yn cynnal adolygiad o'r model gofal plant am ddim presennol i asesu ei effeithlonrwydd ac yn annog ei ehangu ymhellach.

Argymhelliad 20. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru:

- yn adolygu trothwy cymhwysedd y Lwfans Cynhaliaeth Addysg; ac
- yn ystyried cynyddu gwerth y Lwfans Cynhaliaeth Addysg.

Argymhelliad 21. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu datblygu rhaglen Cartrefi Clyd newydd i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi ac i atal pobl sy'n agored i niwed rhag disgyn i dlodi tanwydd.

6. Diogelu gwasanaethau cyhoeddus

Cyllid ar gyfer GIG Cymru a gofal cymdeithasol

209. Yn naratif y Gyllideb Ddrafft, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei hymrwymiad i fuddsoddi £165 miliwn yn ychwanegol mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn 2023-24 “a seilir ar linell sylfaen i mewn i 2024-25”. Ychwanegodd y canlynol:

“Ynghyd â thros £9.4bn o gyllid presennol, bydd hyn yn cefnogi ein gwasanaeth iechyd wrth iddo barhau i ymateb i bwysau gofal brys a gofal brys ac i leihau amseroedd aros hir, sydd wedi cynyddu yn ystod y pandemig. Bydd yn gwneud hyn, tra’n parhau i drawsnewid y ffordd y caiff gofal ei ddarparu, gyda mwy o wasanaethau’n cael eu darparu yn agosach at gartrefi pobl mewn cymunedau lleol. Hyd yn oed gyda’r codiad hwn mewn cyllid, er hynny, bydd dewisiadau anodd i’r GIG wrth iddo geisio diogelu gwasanaethau rheng flaen yn wyneb pwysau chwyddiant uchel yn ogystal â chostau ynni cynyddol.”²³⁵

210. Adroddodd Dadansoddi Cyllid Cymru fod y £165 miliwn ychwanegol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfateb yn fras i’r symiau canlyniadol ychwanegol a gafwyd o wariant uwch ar iechyd yn Lloegr yn Natganiad yr Hydref²³⁶. Bydd y gwariant ar wasanaethau craidd y GIG yn cynyddu £415 miliwn yn 2023-24 a £615 miliwn yn 2024-25. Fodd bynnag, mae’r dyraniadau hyn yn sylweddol is mewn termau real o’u cymharu â’r hyn a bennwyd i ddechrau a’r cynnydd cyfartalog hanesyddol mewn gwariant ar iechyd.²³⁷

211. Croesawodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru y cynnydd £165 miliwn a’r swm rheolaidd £70 miliwn ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol, ond dywedodd ei bod yn amlwg y bydd yn rhaid gwneud dewisiadau anodd iawn mewn perthynas â darparu’r gwasanaeth yn barhaus. Aeth ymlaen i ddweud ei bod yn ymwybodol na fyddai’r Gyllideb Ddrafft yn rhoi gofal cymdeithasol ar lwybr tuag at sefydlogrwydd a chynaliadwyedd.²³⁸

212. Cytunodd Conffederasiwn GIG Cymru â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen, ond gyda’r cafeat mai’r manylion sy’n bwysig,

²³⁵ Llywodraeth Cymru. *Cyllideb Ddrafft 2023-24: Cyllideb mewn Cyfnod Anodd, Rhagfyr 2022, tudalen 22*

²³⁶ Dadansoddi Cyllid Cymru. “A perfect storm” – an initial analysis of the Welsh Government’s Draft Budget for 2023-24, Rhagfyr 2022 (Saenseg yn unig)

²³⁷ Dadansoddi Cyllid Cymru. “A perfect storm” – an initial analysis of the Welsh Government’s Draft Budget for 2023-24, Rhagfyr 2022 (Saenseg yn unig)

²³⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (Saenseg yn unig)

fel gyda'r rhan fwyaf o gyllidebau drafft. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd arbennig diogelu hyfforddiant a chadw'r gweithlu yn y dyfodol.²³⁹

213. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei bod eisiau i'r GIG ganolbwyntio'n llawer mwy ar lai o flaenoriaethau²⁴⁰, a nododd chwe maes blaenoriaeth yn ddiweddarach²⁴¹.

214. Wrth ymateb i'r datganiad hwn, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru pan fo popeth yn flaenoriaeth, nad oes dim yn flaenoriaeth mewn gwirionedd, ac ychwanegodd ei bod yn rhestr helaeth iawn o hyd, a bod y pethau a ddaw o dan y penawdau hynny'n parhau i fod yn eang iawn.²⁴²

215. Nododd Conffederasiwn GIG Cymru hefyd fod diffyg eglurder o ran sut y mae tystiolaeth yn sbarduno rhai o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac nad yw bob amser yn glir sut y penderfynir ar flaenoriaethu amcanion Llywodraeth Cymru mewn modd cymharol a sut y cymhwysir dyraniadau'r gyllideb.²⁴³

216. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog a oedd digon o gyllid wedi'i neilltuo yn y Gyllideb Ddrafft i gyflawni'r blaenoriaethau iechyd, dywedodd y canlynol:

*"... if there was more funding to provide, we obviously would look to do that, because public services are our priority for the budget, but I think that we've again provided the best possible settlement for the health service that we could, in the conditions that we find ourselves in. That doesn't mean it's not going to be difficult—and, as I say, with more money we could always do more more quickly, and so on—but under the circumstances it's certainly the best that we could possibly do."*²⁴⁴

²³⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 13

²⁴⁰ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2023, paragraff 186

²⁴¹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2023, paragraff 121

²⁴² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 24

²⁴³ Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig)

²⁴⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2023, paragraff 520

Cynaliadwyedd ariannol

GIG Cymru

217. Wrth ymateb i ddata ar amseroedd aros y GIG ar gyfer mis Hydref²⁴⁵ (a ddangosodd y gostyngiad cyntaf yn nifer y llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth ers mis Ebrill 2020), dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru:

*"There's no hiding from the fact that the NHS in Wales is dealing with the most pressure it's ever experienced ... With pressures building and as the impact of strike action is felt in the days and weeks that follow, we must expect statistics to worsen, with both patients and staff bearing the brunt."*²⁴⁶

218. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru fod y GIG yn wynebu ei her ariannol fwyaf erioed, a bod chwyddiant, yr ôl-groniat mewn gofal a gynlluniwyd, costau ynni cynyddol a chostau parhaus Covid wedi arwain at bwysau eithriadol o ran costau, sy'n golygu bod y GIG yng Nghymru yn wynebu ei ddiffyg ariannol mwyaf.²⁴⁷

219. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru wrth y Pwyllgor fod oedi wrth drosglwyddo gofal, galw mawr ac aciwtedd uchel yn bwysau eraill y mae'r GIG yn eu hwynebu, yn enwedig yn ystod y gaeaf.²⁴⁸

220. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru y bydd pwysau parhaus yn ei gwneud yn anodd i sefydliadau gynnal yr holl wasanaethau presennol. Byddai cyflwyno arbedion yn parhau i fod yn her ar draws sefydliadau'r GIG ac, o ganlyniad i hynny, bydd y sefyllfa ariannol sylfaenol ar draws GIG Cymru yn ei gyfarwydd yn parhau i fod yn broblem sylweddol.²⁴⁹

Gofal Cymdeithasol

221. Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod awdurdodau lleol yn amcangyfrif pwysau cronnus gwerth £407.8 miliwn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer 2023-24 a 2024-25. Mae hyn yn

²⁴⁵ Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r wasg: Ymateb Llywodraeth Cymru i ddata perfformiad diweddaraf GIG Cymru, Rhagfyr 2022

²⁴⁶ Conffederasiwn GIG Cymru, 'Performance stats show positive signs, but pressures have rocketed since', Rhagfyr 2022 (Saesneg yn unig)

²⁴⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig)

²⁴⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 39

²⁴⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig)

cynnwys cyfanswm y costau comisiynu a phwysau galw gwerth £288.4 miliwn, gyda phwysau chwyddiant cyflog gwerth £75.8 miliwn dros y ddwy flynedd.²⁵⁰

222. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod y pandemig wedi gwaethygu llawer o'r heriau presennol mewn gofal cymdeithasol, a bod galw cynyddol am wasanaethau ochr yn ochr â chymhlethdod cynyddol anghenion, cyllid annigonol a phwysau sylweddol ar y gweithlu.²⁵¹

223. Wrth fynd i'r afael â'r heriau anodd a'r pwysau cyllidebol y mae'r sector gofal cymdeithasol yn eu hwynebu, dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru y canlynol wrth y Pwyllgor:

*"We probably remain in a position where budgets are under pressure, and probably what it means is, in practice, that we'll have to consider where we are in relation to some statutory element of our delivery and whether we need to consider curtailing some services that we provide as a matter of course now."*²⁵²

224. Nododd y Gymdeithas fod darparwyr yn parhau i fynd i drafferthion ariannol a bod awdurdodau lleol yn gorfod ymyrryd ymhellach i osgoi methiannau gan ddarparwyr. Cyfeiriodd hefyd at y pryderon cynyddol ynghylch gofalwyr di-dâl; hebddynt hwy, byddai mwy o alw am gymorth gan wasanaethau sydd eisoes dan ormod o bwysau mewn marchnad fregus, yn ôl y Gymdeithas.²⁵³

225. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog, ar y cyfan, eu bod wedi darparu cyllid ychwanegol sylweddol y llynedd ar gyfer gofal cymdeithasol drwy'r adolygiad o wariant, ac yn enwedig eleni hefyd.²⁵⁴

226. O ran sylwadau'r Gymdeithas nad oedd y Gyllideb Ddrafft yn mynd i sicrhau bod gofal cymdeithasol ar lwybr tuag at sefydlogrwydd a chynaliadwyedd²⁵⁵, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

"So, we definitely see this as being a step on that journey towards sustainability. So, the additional funding that we've provided through the three-year spending review and this year's funding as well. And, as I say, it's not all about funding; it's about

²⁵⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. (Saesneg yn unig)

²⁵¹ Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

²⁵² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 51

²⁵³ Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. (Saesneg yn unig)

²⁵⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 489

²⁵⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. (Saesneg yn unig)

addressing some of that churn that we have in the system, some of the difficult pathways that people have. That's part of the challenge, and that's why we've provided £133 million through the regional integration fund. That really is about trying to have a sector that can sustain itself for the future, and that operates in a different way. So, I think that particular fund will, again, be helpful in this regard.”²⁵⁶

227. Nododd swyddog y Gweinidog y gwaith a wnaed yn y Senedd flaenorol mewn perthynas ag ardoll gofal cymdeithasol i gyllido costau cynyddol y ddarpariaeth gofal cymdeithasol, sy'n rhannol oherwydd pwysau chwyddiant ond pwysau galw hefyd. Dywedodd fod y gwaith hwnnw wedi ei roi i'r neilltu:

*“...because the UK Government was planning on increasing UK taxes to increase funding. But things have played out a bit differently, perhaps, than were expected. So, that's an area that we're going to be picking up again.”*²⁵⁷

Llywodraeth Leol

228. Ar 14 Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2023-24 (y Setliad).²⁵⁸

229. Ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, mae cyfanswm y cyllid craidd, a elwir yn Gyllid Allanol Cyfun, ar gyfer llywodraeth leol yn 2023-24 yn £5.5 biliwn, sef cynnydd o 7.9 y cant ar sail gyfatebol o'i gymharu â 2022-23.

230. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod awdurdodau lleol yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd i gau'r bylchau yn y gyllideb sy'n cynyddu yn sgil biliau ynni, chwyddiant a chostau cyflogau, gan awgrymu bod y Setliad yn talu am ychydig dros hanner y pwysau y mae'n eu hwynebu yn y flwyddyn ariannol nesaf.²⁵⁹

231. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, mae'r Gymdeithas yn nodi pedwar math o bwysau allweddol ar gyllidebau refeniw; chwyddiant; costau ynni; galw am wasanaethau; a phwysau cyflogau.²⁶⁰

²⁵⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 491

²⁵⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 509

²⁵⁸ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2023-24, Rhagfyr 2022

²⁵⁹ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 'Llywodraeth Cymru wedi cefnogi cynghorau gyda'r setliad, ond penderfyniadau anodd yn parhau, dywed CLILC', Rhagfyr 2022

²⁶⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 15

232. Mae'r Gymdeithas yn amlinellu'r cynnydd cyflym mewn chwyddiant, gan ddweud, ar adeg yr arolwg diwethaf o awdurdodau lleol yn 2021, yr amcangyfrifwyd mai £65 miliwn yw'r pwysau chwyddiant nad ydynt gysylltiedig â chyflogau ar gyfer 2023-24. Yn yr arolwg diweddar, mae hyn wedi codi i £124 miliwn, sef amcangyfrif £58 miliwn o bwysau ychwanegol.²⁶¹

233. Yn nhystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, dywedodd y canlynol:

*"Er gwaethaf y pwysau sylweddol ar awdurdodau lleol a nodwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, nid oedd ein setliad gan Lywodraeth y DU wedi ein galluogi i leddfu'r pwysau hwn sy'n deillio o chwyddiant a chynnydd yn y galw am wasanaethau yn llawn."*²⁶²

234. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod pob awdurdod lleol bellach yn adrodd ar "orwariant yn y flwyddyn ariannol gyfredol, yn ogystal â bylchau yn y gyllideb yn y blynyddoedd i ddod". Heb gyllid ychwanegol, datganodd:

*"...n[a] ellir pwysleisio digon ar y risgiau i holl wasanaethau llywodraeth leol gan gynnwys rhai mwy sef addysg a gofal cymdeithasol."*²⁶³

235. Fodd bynnag, gan gydnabod y pwysau enfawr y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu, croesawodd y Cynghorydd Anthony Hunt y setliad gan ei fod yn rhoi cyfle teg i awdurdodau lleol o ran mynd i'r afael â'r pwysau hynny.²⁶⁴ O ran cynllunio strategol yn 2024-25, ychwanegodd fod y Setliad hefyd yn rhoi cyfle iddynt ganolbwyntio ar y tymor hir.²⁶⁵

236. Wrth gyfeirio at awdurdodau lleol yn gwneud arbedion effeithlonrwydd, dywedodd y Cynghorydd Anthony Hunt nad oes fawr mwy y gellid ei wasgu o hynny, yn enwedig ar ôl degawd o gyni.²⁶⁶

237. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth galonogol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynas â chydweithio a dysgu ar y cyd rhwng awdurdodau lleol.

²⁶¹ Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

²⁶² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Tystiolaeth ysgrifenedig: Llywodraeth Cymru

²⁶³ Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

²⁶⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 172

²⁶⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 197

²⁶⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 180

Ystyriwyd bod rhannu profiadau ag awdurdodau lleol eraill yn llawer mwy effeithiol na cheisio cynllunio'n unigol.²⁶⁷

238. Pwysleisiodd y Gymdeithas hefyd bwysigrwydd deialog barhaus â'r Gweinidogion:

*"I think Rebecca, and Julie before her, deserve great credit for the way they've engaged with us. I speak with English leaders quite often over the border, and they don't have that kind of relationship."*²⁶⁸

Mynd i'r afael â phwysau'r sector cyhoeddus

Arbedion effeithlonrwydd

239. Roedd Conffederasiwn GIG Cymru yn cydnabod yr arbedion effeithlonrwydd rheolaidd y mae sefydliadau GIG Cymru wedi'u gwneud, ond dywedodd fod angen mynd y tu hwnt i sicrhau arbedion effeithlonrwydd technegol traddodiadol a meddwl yn arloesol gan ystyried effeithlonrwydd wrth ddyrannu adnoddau, yn seiliedig ar ddealltwriaeth well o ganlyniadau penderfyniadau gwario. Ychwanegodd y canlynol:

*"It is vital that the Welsh Government introduce a three-to-five-year efficiency programme to positively incentivise efficiency improvements, grounded in quality improvement data, better outcomes for citizens and Value-Based Healthcare."*²⁶⁹

240. Dywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid y canlynol wrth y Pwyllgor:

*"...a focus on preventative or early intervention might also be beneficial across the health system and a range of areas. It could include public health and access to primary care, including out-of-hours care, in order to reduce the pressure on emergency and other secondary care, which is often a lot more expensive to deliver."*²⁷⁰

241. Dywedodd y Sefydliad fod pethau y gellid eu darparu'n fwy effeithlon, yn enwedig eitemau mawr fel gwariant ar iechyd.²⁷¹ Tynnodd sylw at waith Ymddiriedolaeth Nuffield a ganfu fod y cyfnod aros mewn ysbytai ar gyfartaledd yn sylweddol hwy yng Nghymru nag yn Lloegr, sef tua saith niwrnod yn hytrach na

²⁶⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 182

²⁶⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 195

²⁶⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig)

²⁷⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 90

²⁷¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 87

4.3 diwrnod yn Lloegr yn 2020.²⁷² Adroddodd Ymddiriedolaeth Nuffield ddau achos posibl am hyn: lefelau cyllid a pherfformiad, gan nodi bod y GIG yng Nghymru yn llai effeithlon neu'n canolbwyntio'n llai ar ddarparu gofal amserol. Daeth Ymddiriedolaeth Nuffield i'r casgliad bod cwestiynau difrifol i'w gofyn mewn perthynas â hyn.²⁷³

Trawsnewid gwasanaethau ac integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol

242. Dywedodd Llywodraeth Cymru, yn 2023-24, ei bod yn darparu cyllid refeniw gwerth £144.6 miliwn ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol bum mlynedd newydd, a £50 miliwn ar gyfer y "Gronfa Integreiddio ac Ail-gydbwyso newydd".²⁷⁴

243. Mae hefyd yn cefnogi'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol y mae wedi dyrannu £45 miliwn mewn refeniw ac £20 miliwn mewn cyfalaf iddi yn 2023-24. Dywedodd y bydd hyn yn "cyflawni Trawsnewid Digidol yn y sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol".²⁷⁵

244. Nododd Conffederasiwn GIG Cymru fod trawsnewid digidol yn un o'i 11 maes blaenoriaeth, a nododd yr angen am gynllun buddsoddi deng mlynedd er mwyn ailystyried mewn modd radical sut y caiff gwasanaethau eu darparu i helpu i gefnogi cynaliadwydd yn y tymor hir.

245. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor am yr angen am ddull system gyfan rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, oherwydd eu bod mor gydgysylltiedig, gan ychwanegu bod angen rhai sgysiau agored ac adeiladol rhwng aelodau'r Gymdeithas ac â Llywodraeth Cymru hefyd.²⁷⁶

246. Yn ei adroddiad 'Darlun o Ofal Cymdeithasol', dywedodd Archwilio Cymru fod "COVID-19 wedi gwneud yr angen am newid yn fwy pwysig, ond bydd trawsnewid gofal cymdeithasol yn heriol". Aeth ymlaen i nodi'r canlynol:

*"Er gwaethaf yr heriau sylweddol sydd o'n blaenau, mae cyfleoedd i ailgodi a darparu gwasanaethau'n wahanol, rhoi'r defnyddiwr wrth wraidd gwasanaethau, a dysgu o'r ymateb cyfunol i COVID-19."*²⁷⁷

²⁷² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 87

²⁷³ Ymddiriedolaeth Nuffield, 'How well is the NHS in Wales performing?', Mehefin 2022 (Saesneg yn unig)

²⁷⁴ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Tystiolaeth ysgrifenedig: Llywodraeth Cymru

²⁷⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Tystiolaeth ysgrifenedig: Llywodraeth Cymru

²⁷⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 262

²⁷⁷ Archwilio Cymru, Adroddiad: Darlun o Ofal Cymdeithasol, Hydref 2021

247. Nododd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod angen buddsoddiad sylweddol mewn gofal cymdeithasol i gynorthwyo i ddatrys y problemau, fel oedi wrth drosglwyddo gofal a'i effaith ar faterion iechyd a gofal cymdeithasol. Nododd y canlynol:

*"Sector transformation requires strong, collective, compassionate leadership, a resilient and respected workforce and these need to be backed up by a long-term and sustainable funding settlement for the health and social care system, which we have long been calling for."*²⁷⁸

248. Awgrymodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid fod angen gwneud mwy o waith dadansoddi er mwyn gwneud yr hyn a ganlyn:

*"...to improve the efficiency of the NHS, and particularly learning, not just from England, but learning within Wales on best practice and then from other parts of the UK and elsewhere in the world, because the health service is the biggest single item of Welsh Government spending, and there could be opportunities for efficiencies that would go some way to address the budget pressures."*²⁷⁹

Y gweithlu

249. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth am y pwysau ar y gweithlu ar draws cyrff cyhoeddus. Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

*"Mae capasiti a chynllunio'r gweithlu yn dal yn ffocws allweddol i gyrff GIG Cymru ar lefel leol a rhanbarthol."*²⁸⁰

250. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei "buddsoddiad craidd yn y GIG bron i £1.3bn ychwanegol", ac wedi darparu ar gyfer "cynnydd sylweddol yn y cyllid i lywodraeth leol", gan gynnwys cyllid ar gyfer ei hymrwymiad i'r cyflog byw gwirioneddol.²⁸¹

²⁷⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (Saesneg yn unig)

²⁷⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 91

²⁸⁰ Ymateb Llywodraeth Cymru: Adroddiad y Pwyllgor Cyllid - Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-2023, Mawrth 2022

²⁸¹ Ymateb Llywodraeth Cymru: Adroddiad y Pwyllgor Cyllid - Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-2023, Mawrth 2022

251. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru fod 100 y cant o arweinwyr y GIG yn gytûn bod argyfwng yn y gweithlu gofal cymdeithasol, gydag effaith wedyn ar ofal a diogelwch cleifion.²⁸² Ychwanegodd y canlynol:

“We’re here today to talk about some of the limitations on resource, and the biggest limiting factor for the NHS is workforce, in terms of being tired, in terms of absolute numbers, in terms of training.”²⁸³

252. Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y bydd yr ymdrechion parhaus i fynd i'r afael â heriau parhaus y gweithlu ynghylch hyfforddi, recriwtio a chadw staff yn bwysig ac yn heriol.²⁸⁴

253. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn “darparu ateb cynaliadwy i staffio GIG Cymru drwy fuddsoddi mewn hyfforddi pobl ar gyfer y dyfodol” a'i bod yn gwneud ei “buddsoddiad ariannol mwyaf erioed mewn hyfforddiant i'r gweithlu” yn 2023-24. Fodd bynnag, ychwanegodd y canlynol:

“... rhaid i ni hefyd ganolbwyntio ar ffyrdd o ddefnyddio ein gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol yn fwy effeithiol. Nid oes atebion sydyn, ond mae'n rhaid i ni edrych ar yr holl ddulliau arloesol o newid – nid yn unig ein ffyrdd o weithio ond hefyd ein ffyrdd o feddwl.”²⁸⁵

254. Gan gydnabod yr ansicrwydd ariannol diweddar y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ei wynebu mewn perthynas â Brexit a'r pandemig, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru wrth y Pwyllgor fod angen cynllun i'r gweithlu wedi'i gyllido, ac eglurder, costio a chydabyddiaeth gan y Llywodraeth ynghylch yr hyn y mae angen ei roi ar waith ar draws gofal cymdeithasol, llywodraeth leol a'r holl wasanaethau cyhoeddus.²⁸⁶

255. Nododd fod Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn datblygu cynllun tymor hir i'r gweithlu y mae ei angen ar frys ond, hyd yn hyn, nid yw wedi'i weld. Ychwanegodd fod angen sicrwydd ariannol tymor hwy sy'n canolbwyntio ar hyfforddi a datblygu.²⁸⁷

²⁸² Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig)

²⁸³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 23

²⁸⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Iechyd Cyhoeddus Cymru

²⁸⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Tystiolaeth ysgrifenedig: Llywodraeth Cymru

²⁸⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 149

²⁸⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 100

256. Yn ddiweddarach, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gweithlu GIG Cymru ar 31 Ionawr 2023.²⁸⁸

257. Wrth ymateb i faterion recriwtio a chadw staff, croesawodd Conffederasiwn GIG Cymru gynlluniau Addysg a Gwellu Iechyd Cymru i recriwtio mwy o nyrsys a hyfforddi mwy o feddygon teulu, ond dywedodd fod cefnogaeth a datblygiad pobl o fewn y gwasanaeth yn her. Cyfeiriodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru at recriwtio a chadw staff (ar gyfer gwasanaethau mewnol a gwasanaethau a gomisiynir) fel y prif resymau dros ddiffyg capasiti ym maes gofal cymdeithasol, gyda'r defnydd o staff asiantaeth yn ychwanegu at y pwysau ariannol.²⁸⁹

258. Yn ôl Archwilio Cymru, mae'r gwariant ar staff asiantaeth gan sefydliadau GIG Cymru wedi tyfu'n raddol dros y deng mlynedd diwethaf.²⁹⁰

259. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, nododd Llywodraeth Cymru ei bod:

*"... yn bryderus iawn ynghylch lefel y gwariant ar staff locwm ac asiantaethau, a byddwn yn gweithio gyda'r sefydliadau perthnasol i ganolbwyntio ar reoli'r gwariant hwn wrth weithio'n agos gydag undebau llafur. Ein nod yw cyflawni gwaith yn gyflym er mwyn deall y sefyllfa bresennol yn glir, lleihau gwariant a dibyniaeth ar staff asiantaeth a locwm cyn gynted â phosibl, a sicrhau ein bod mewn sefyllfa well yn y dyfodol."*²⁹¹

260. O ran yr angen i ddefnyddio staff asiantaeth, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru y canlynol:

*"we are losing medical workforce significantly because of a UK-wide issue around the pension tax annual allowance issue. So, people get to a stage in their career where, actually, it is costing them to come to work and do additional sessions. So, we're losing capacity there and seeing people retire early—we're seeing people go in their fifties when they've got significantly more to offer for the rest of their careers, potentially."*²⁹²

²⁸⁸ Llywodraeth Cymru. Datganiad Ysgrifenedig: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu

²⁸⁹ Y Pwyllgor Cyllid. Tystiolaeth Ysgrifenedig: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

⁵⁶ Archwilio Cymru: Offeryn Data Cyllid GIG Cymru

²⁹¹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Tystiolaeth ysgrifenedig: Llywodraeth Cymru

²⁹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 104

Cyflog

261. Dywedodd y Gweinidog fod y setliad yn “cynnwys cyllid i alluogi awdurdodau i barhau i dalu’r costau ychwanegol o gyflwyno’r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal”.²⁹³

262. Ond dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod angen i fesurau fynd y tu hwnt i’r cyflog byw gwirioneddol os ydynt wir eisiau gallu cynnig ‘tâl teg’ i’r rhai sy’n ymgymryd â rhai o’r rolau pwysicaf yn y gymdeithas. Mae’n parhau i alw am ffocws brys ar sicrhau’r un parch ag ym maes iechyd mewn perthynas â thâl, telerau ac amodau a dilyniant gyrfa, a bod angen buddsoddiad ychwanegol nawr a thros y tair blynedd nesaf i wneud hynny.²⁹⁴

263. Dywedodd y Cynghorydd Llinos Medi wrth y Pwyllgor fod pwysau recriwtio ym maes gofal cymdeithasol ac ar draws llywodraeth leol, a nododd fod gweithio i “llywodraeth leol ddim mor ddelfrydol ag yr oedd hi flynyddoedd yn ôl”.²⁹⁵

264. Yn Naratif y Gyllideb, dywedodd Llywodraeth Cymru fod y “wasgfa ar gyflog termau real yn llawer mwy dwys” yn y sector cyhoeddus o’i gymharu â’r sector preifat, a bod enillion wythnosol cyfartalog y sector cyhoeddus “ar ôl ystyried chwyddiant yn gostwng mwy na 7%”.²⁹⁶

265. Amlinellodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod y cynnig cyflog ar gyfer 2022-23 yn rhoi rhwng 6.5 y cant a 7.5 y cant o bwysau ychwanegol ar fil cyflogau llywodraeth leol. Datganodd fod mwyafrif yr awdurdodau lleol wedi rhagweld codiad cyflog tua 3-4 y cant ar adeg gosod y cyllidebau (dechrau 2022). Tynnodd sylw at bwysau o du cyflog athrawon hefyd, gyda rhagdybiaeth debyg 3-4 y cant wedi’i gwneud gan y rhan fwyaf o’r cynghorau, ond mai 5 y cant oedd y cynnig gwirioneddol. Dywedodd y Gymdeithas fod:

“...y cynnydd heb ei gynllunio yn y bil cyflogau yn 22-23 yn dod i £109m: £32m ar gyfer ysgolion, £20m ar gyfer gofal cymdeithasol a £57m ar gyfer gwasanaethau eraill y cyngor.”²⁹⁷

²⁹³ Llywodraeth Cymru. Datganiad ysgrifenedig: Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2023-24. Rhagfyr 2022

²⁹⁴ Y Pwyllgor Cyllid. Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. (Saesneg yn unig)

²⁹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 258

²⁹⁶ Llywodraeth Cymru. Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24. Cyllideb mewn Cyfnod Anodd. Rhagfyr 2022

²⁹⁷ Y Pwyllgor Cyllid. Ymateb i’r ymgynghoriad: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Barn y Pwyllgor

266. Hyd yn oed gyda'r cynnydd mewn cyllid yn y Gyllideb Ddrafft, mae iechyd, gofal cymdeithasol a llywodraeth leol i gyd yn wynebu penderfyniadau anodd am y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn y flwyddyn i ddod, o gofio'r pwysau ariannol sylweddol a'r heriau y maent yn eu hwynebu. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol ac yn nodi o'r dystiolaeth ei fod yn rhoi cyfle teg i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol iawn o'r heriau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth ystyried arbedion effeithlonrwydd, o gofio'r newidiadau i wasanaethau dros y degawd diwethaf.

267. Mae'r Pwyllgor yn nodi cais y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sefydliadau'r GIG ganolbwyntio ar chwe maes blaenoriaeth i fynd i'r afael â phwysau. Er bod y blaenoriaethau hyn yn ganmoladwy, mae perygl iddynt ddod yn ddiystyr os na all Llywodraeth Cymru egluro hefyd pa feysydd y dylai'r GIG eu dadflaenoriaethu er mwyn canolbwyntio adnoddau mewn mannau eraill. Fel y dywedodd un tyst wrthym, pan fo popeth yn flaenoriaeth, nid oes dim yn flaenoriaeth mewn gwirionedd, ac mae'r Pwyllgor yn disgwyl i Lywodraeth Cymru fod yn glir ac yn onest ynghylch ei dull o weithredu yn y maes hwn.

268. Mae'n rhaid i'r Gweinidog esbonio sut y mae'r meysydd blaenoriaeth hyn yn cyd-fynd â'r dyraniadau a wnaed yn y Gyllideb Ddrafft, a sut y bydd hyn yn lleddfu'r pwysau gweithredol ac ariannol ar gyrff y GIG. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru esbonio sut y mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y canlyniadau y bydd yn ofynnol i sefydliadau'r GIG eu cyflawni yn 2023-24 gyda'r cyllid a ddyrannwyd.

269. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y pwysau aruthrol y mae'r GIG yn eu hwynebu yn golygu y bydd cyflawni arbedion yn heriol ac y bydd yn arbennig o anodd i sefydliadau ganolbwyntio eu sylw ar drawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflawni, er bod hyn yn hanfodol i gynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hir.

270. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid penodol yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer trawsnewid gwasanaethau ac integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol newydd a'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol. Fodd bynnag, nid yw'n glir beth y bydd y cyllid hwn yn ei gyflawni a sut y bydd gwersi neu newidiadau'n cael eu prif ffrydio o'i herwydd. Yn yr un modd, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol ond nid yw'n glir ynghylch disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran pa wasanaethau y bydd y cyllid hwn yn eu darparu.

271. Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn ynghylch canfyddiadau Ymddiriedolaeth Nuffield bod y GIG yng Nghymru yn llai effeithlon neu'n canolbwyntio'n llai ar ddarparu gofal amserol a bod cyfartaledd yr amser aros mewn ysbytai yn llawer hwy yng Nghymru nag yn Lloegr. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud gan sefydliadau'r GIG i sicrhau arbedion effeithlonrwydd mewn amgylchiadau anodd. Fodd bynnag, credwn y gall ac y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i ddadansoddi effeithiolrwydd gwariant yn y maes hwn i gymell gwelliannau a fydd yn lleihau'r pwysau yn y tymor hir.

272. Yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor ar gyllideb y llynedd, nododd bryderon am brinder staff a phwysau ar y gweithlu, a galwodd ar Lywodraeth Cymru i esbonio sut y mae'n mynd i'r afael â phwysau o'r fath.²⁹⁸ Mae'n hynod siomedig felly nad yw'r sefyllfa wedi gwella, gyda'r gweithlu bellach yn cael ei ddisgrifio fel y ffactor sy'n cyfyngu fwyaf²⁹⁹ ar GIG Cymru, gyda phryderon penodol am recriwtio a chadw staff. Cafodd pryderon tebyg eu codi am y gweithlu gofal cymdeithasol a llywodraeth leol. Mae cyflogau ac amodau'n rhan yn hyn o beth, ac mae'r Pwyllgor yn cydnabod yn llawn bod y wasgfa gyflog termau real yn llawer dwysach yn y sector cyhoeddus.

273. Mae'r Pwyllgor yn nodi buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn datblygu'r gweithlu ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drwy'r Gyllideb Ddrafft a'r effaith bosibl y gall hyn ei chael ar recriwtio i'r gweithlu yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa fesurau sydd ar waith i fynd i'r afael â chadw'r gweithlu presennol. Bydd y pwysau ar wasanaethau cyhoeddus ond yn cynyddu os nad ymdrinnir â'r materion sylfaenol yn ymwneud â recriwtio a chadw ac, er ein bod yn cydnabod nad oes atebion tymor byr hawdd i'r problemau hyn, credwn y gall Llywodraeth Cymru wneud mwy i esbonio sut y bydd ei gwariant yn arwain at newid yn y meysydd hyn.

274. Mae'r Pwyllgor yn rhannu pryderon Llywodraeth Cymru am lefel gwariant y GIG ar staff asiantaeth a locwm, a'r goblygiadau o ran cost. Mae'n destun pryder hefyd clywed, oherwydd y materion yn ymwneud â lwfans blynyddol y dreth pensiwn, fod pobl yn ymddeol yn gynnar a bod y GIG yn colli capasiti a staff profiadol. Mae'r rhain yn faterion hanfodol i fynd i'r afael â hwy i leddfu'r pwysau ar y GIG. Byddem felly'n croesawu diweddariad gan Lywodraeth Cymru pan fydd wedi cwblhau ei hadolygiad o'r defnydd o staff asiantaeth a locwm gan y GIG ac wedi datblygu mesurau i leihau'r defnydd.

²⁹⁸ Adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, Chwefror 2022, Argymhelliad 24

²⁹⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 23

275. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd gwahanol ac arloesol o gyllido'r costau cynyddol y ddarpariaeth gofal cymdeithasol a lleddfu'r pwysau ar y gweithlu, gan gynnwys edrych eto ar gyflwyno'r ardoll gofal cymdeithasol. Edrychodd y Pwyllgor blaenorol ar y mater hwn³⁰⁰ ac mae gennym ddiddordeb mewn clywed mwy am waith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

276. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cynllun y gweithlu a ddatblygwyd gan Addysg a Gofal Iechyd Cymru ar gyfer proffesiynau gofal iechyd ac yn nodi ei fod wedi'i gyhoeddi. Fodd bynnag, o gofio'r pwysau a nodwyd, credwn hefyd y dylid datblygu cynllun i'r gweithlu ar gyfer pob proffesiwn yn y sector cyhoeddus. Y gweithlu yw asgwrn cefn ein gwasanaethau cyhoeddus, ac os nad yw'r bobl sy'n cefnogi'r gwasanaethau hynny'n derbyn gofal, bydd unrhyw ymdrech i sicrhau gwelliannau yn methu. Felly, mae'r Pwyllgor yn credu bod gwaith cynllunio manwl a strategol ar gyfer y gweithlu yn hanfodol i gynaliadwyedd a chydnerthedd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol, ac mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus fel rhan o'i ddatblygu.

Argymhelliad 22. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn esbonio sut y mae'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu yn y Gyllideb Ddrafft yn cyd-fynd â'r chwe blaenoriaeth ar gyfer GIG Cymru a nodwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a pha feysydd y bydd yn eu dadflaenoriaethu fel rhan o'r broses hon.

Argymhelliad 23. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y canlyniadau y mae'n disgwyl i sefydliadau'r GIG a darparwyr gofal cymdeithasol eu cyflawni gyda'r cyllid ychwanegol y mae wedi'i ddyrannu ar gyfer 2023-24.

Argymhelliad 24. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad o'r cyllid y mae wedi'i ddyrannu i wella effeithlonrwydd yn y GIG gyda'r bwriad o leihau pwysau yn y tymor hir.

Argymhelliad 25. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth i ddangos sut y mae'r dyraniadau ar gyfer 2023-24:

- yn lleddfu pwysau staffio ar unwaith ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a llywodraeth leol;

³⁰⁰ Y Pwyllgor Cyllid (y Bumed Senedd). Cost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio. Hydref 2018

- yn sicrhau gwelliannau i'r materion recriwtio a chadw a wynebwr yn y meysydd hynny.

Argymhelliad 26. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi:

- diweddariad ar y defnydd o staff asiantaeth a locwm gan y GIG, gan gynnwys gwybodaeth am y mesurau y bydd yn eu mabwysiadu er mwyn lleihau'r ddibyniaeth arnynt ac effaith ddisgwyliedig y camau gweithredu ar wariant; a
- manylion y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â lwfans blynyddol y dreth pensiwn o gofio ei effaith sylweddol ar weithlu'r GIG.

Argymhelliad 27. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn rhoi diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar gyflwyno ardoll gofal cymdeithasol i gyllido cost gynyddol y ddarpariaeth gofal cymdeithasol ac i leddfu'r pwysau ar y gweithlu.

Argymhelliad 28. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus i lunio cynllun cynhwysfawr, tymor hir ar gyfer y gweithlu gwasanaethau cyhoeddus ac yn rhoi diweddariad ar ei ddatblygu.

Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. **Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.**

Dyddiad	Enw a sefydliad
14 Rhagfyr 2022	Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru Llywodraeth Cymru Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth Llywodraeth Cymru
12 Ionawr 2023	David Phillips, Cyfarwyddwr Cyswllt y Sefydliad Astudiaethau Cyllid Dr Ed Poole, Uwch Ddarlithydd Canolfan Llywodraethiant Cymru (Dadansoddi Cyllid Cymru) Guto Ifan, Darlithydd Canolfan Llywodraethiant Cymru (Dadansoddi Cyllid Cymru) Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru Rhiannon Hardiman, Ysgogwr Newid: Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru Alex Chapman, Uwch Ymchwilydd New Economics Foundation Victoria Winkler, Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan Luke Young, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyngor ar Bopeth Cymru Natasha Davies, Arweinydd Polisi ac Ymchwil Chwarae Teg Richard Hughes, Cadeirydd Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol Andy King, aelod o'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

Dyddiad	Enw a sefydliad
	Yr Athro David Miles, Aelod o'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol
19 Ionawr 2023	Sally May, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg Conffederasiwn GIG Cymru Darren Hughes, Cyfarwyddwr Bwrdd Cydffederasiwn GIG Cymru Alwyn Jones, Llywydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru Dave Street, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cynrychiolydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Y Cyngorydd Anthony Hunt, Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Llefarydd Cyllid ac Adnoddau) Y Cyngorydd Llinos Medi, Arweinydd, Cyngor Sir Ynys Môn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Llefarydd Cyllid ac Adnoddau) Y Cyngorydd Lis Burnett, Arweinydd, Cyngor Bro Morgannwg Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Llefarydd Cyllid ac Adnoddau) Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru Llywodraeth Cymru Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth Llywodraeth Cymru

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. **Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.**

Cyfeirnod	Sefydliad
WGDB_23-24 01	Sefydliad y Peirianwyr Sifil
WGDB_23-24 02	Recovery
WGDB_23-24 03	Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI Cymru)
WGDB_23-24 04	Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
WGDB_23-24 05	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)
WGDB_23-24 06	Cymdeithas Ddysgedig Cymru
WGDB_23-24 07	Iechyd Cyhoeddus Cymru
WGDB_23-24 08	Undeb Amaethwyr Cymru
WGDB_23-24 09	Colegau Cymru
WGDB_23-24 10	Chwarae Teg
WGDB_23-24 11	Grŵp Cyllideb Menywod Cymru
WGDB_23-24 12	Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
WGDB_23-24 13	Clinks
WGDB_23-24 14	Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith
WGDB_23-24 15	Cymorth i Fenywod Cymru
WGDB_23-24 16	Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Chanolfan Gyfreithiol y Plant Cymru
WGDB_23-24 17	Barnardo's Cymru
WGDB_23-24 18	Gofal a Thrwsio Cymru
WGDB_23-24 19	Sefydliad Ffiseg
WGDB_23-24 20	Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru
WGDB_23-24 21	Climate Cymru

Cyfeirnod	Sefydliad
WGDB_23-24 22	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) Cymru
WGDB_23-24 23	Cwmpas
WGDB_23-24 24	Prifysgolion Cymru
WGDB_23-24 25	Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) Cymru
WGDB_23-24 26	Community Leisure UK Cymru
WGDB_23-24 27	Cartrefi Cymunedol Cymru
WGDB_23-24 28	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
WGDB_23-24 29	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
WGDB_23-24 30	Conffederasiwn GIG Cymru
WGDB_23-24 31	British Heart Foundation (BHF) Cymru

Gwybodaeth Ychwanegol

Teitl	Dyddiad
<u>Y Wallich</u>	Ionawr 2023
<u>Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru</u>	Ionawr 2023
<u>Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru</u>	Ionawr 2023
<u>Tystiolaeth ysgrifenedig gan Sefydliad Bevan</u>	Rhagfyr 2022